



Joint Council for
Qualifications

Canllaw ar brosesau apelio

Cyfres Haf 2021

**At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr
mewn ysgolion a cholegau a staff addysgu**

Cynhyrchwyd ar ran:



©JCQ^{CIC} 2021

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Mehefin 2021 gan y Cyd-Gyngor Cymwysterau^{CIC}

Ar gael ar ffurf pdf o: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals>

At sylw Penaethiaid Canolfannau ac Uwch Arweinwyr

Ysgolion a cholegau sydd wedi pennu graddau myfyrwyr eleni - yr athrawon eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn. Mae'r broses apelïadau'n gweithredu fel rhwyd ddiogelwch hanfodol rhag ofn bod unrhyw beth yn mynd o'i le. Mae'n sicrhau bod hawl unigol gan bob dysgwr i apelio ei raddau ar sail proses adolygu dryloyw.

Beth fydd yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y graddau cywir ac yn lleihau i'r eithaf unrhyw ymholiadau amdany'n nhw?

Bydd sicrhau bod myfyrwyr yn deall sut mae eu graddau wedi cael eu pennu yn lleihau'r posibilrwydd o rywbeth annisgwyl yn digwydd ar ddiwrnod y canlyniadau. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys:

- Darpariaeth trefniadau mynediad effeithiol / addasiadau rhesymol i bob myfyriwr cymwys
- Trefniadau effeithiol i fyfyrwyr y gallent fod dan anfantais yn ystod asesiad sy'n cyfrannu at eu gradd. Gellir gwneud hyn naill ai trwy ystyried yr amgylchiadau wrth bennu graddau neu ddefnyddio tystiolaeth arall nad effeithiodd yr amgylchiadau andwyol arni.
- Cyfathrebu effeithiol â myfyrwyr a rhieni/gwarcheidwaid fel y byddant yn deall sut mae eich canolfan wedi mynd ati i bennu eu graddau, gan gynnwys yr eitemau o dystiolaeth a ddefnyddiwyd a'r graddau/marciau sy'n gysylltiedig â'r rhain fel y gall myfyrwyr godi unrhyw wallau posibl neu amgylchiadau lliniarol.
- Cadw cofnodion cywir

Tudalen 49 dogfen y CGC Guidance on the Determination of Grades for A/AS Levels and GCSEs for Summer 2021.

Pam bydd y pethau hyn yn helpu?

Byddant yn helpu i sicrhau bod myfyrwyr yn deall y dystiolaeth y seiliwyd eu gradd arni a bod y dystiolaeth hon yn cynrychioli eu gallu yn y pwnc hwn

Byddant yn lleihau'r risg o fyfyrwyr yn derbyn canlyniadau anghywir oherwydd gwallau gweinyddol neu weithdrefnol, a bydd myfyrwyr yn gallu mynd ymlaen heb oedi.

Byddant yn lleihau'r amser y byddwch chi a'ch staff yn ei dreulio ar unrhyw adolygiadau canolfannau ac apelïadau yn dilyn diwrnodau'r

Pedwar cam y gallwch chi eu cymryd i leihau'r angen am apelïadau i'r eithaf

1

Cyfathrebu â myfyrwyr a rhieni / gwarcheidwaid

Mae **Paragraff 3.3** yn y canllaw yn rhoi manylion y wybodaeth y gallwch chi ei rhannu â'r myfyrwyr cyn diwedd y tymor. Dylai hynny eich helpu i adnabod unrhyw wallau cyn diwrnod y canlyniadau.

2

Gwirio eich gweithdrefnau

Mae **Atodiad Dd** yn y canllaw yn cynnwys rhestr o'r gweithdrefnau y gallwch chi eu gwirio. Mae gwirio fel hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o adolygiadau canolfannau ac apelïadau ac yn sicrhau bod modd eu cynnal yn brydlon os gofynnir amdanynt.

3

Gwirio eich dogfennau

Rhestr wirio yw **Atodiad C** yn y canllaw. Mae'n dangos y dystiolaeth y bydd angen i chi ei chyflwyno ar gyfer apêl i'r sefydliad dyfarnu. Rhestr o'r ddogfennaeth ydyw y gallwch chi ei gwirio i sicrhau ei bod yn gyflawn ac o fewn cyrraedd hawdd i staff a fydd yn cwblhau adolygiadau canolfannau ac yn cyflwyno apelïadau.

4

Cywiro unrhyw wallau cyn diwrnodau canlyniadau

Mae **Paragraffau 5.1 a 5.28 ac adran 4** o'r canllaw yn cynnwys manylion am gynnal adolygiadau gweithdrefnol a gweinyddol a sut y gallwch chi gywiro unrhyw wallau cyn diwrnodau'r canlyniadau fel y gall myfyrwyr symud ymlaen heb oedi.

Mae'r llinell amser ar dudalen 4 y canllaw yn amlinellu pa bryd y gallwch chi gymryd y pedwar cam hyn.

Llinell Amser Graddio ac Apeliadau 2021

	Pennu Polisi'r Ganolfan a'r ffynonellau o dystiolaeth i'w defnyddio i bennu graddau	Gosod a marcio unrhyw asesiadau ychwanegol a ddefnyddiwyd	Graddio a SA mewnol ac allanol	Cyflwyno Graddau a Asesir gan Athrawon 26 Mai i 18 Mehefin	Diwedd y tymor Mehefin neu Orffennaf	Diwrnodau canlyniadau 10 a 12 Awst	Adolygiad Canolfannau (cam 1) Blaenoriaeth: 10 i 20 Awst Heb fod yn flaenoriaeth: 10 Awst i 10 Medi	Apêl i'r Sefydliad Dyfarnu (cam 2) Blaenoriaeth: 10 i 23 Awst Heb fod yn flaenoriaeth: 10 Awst i 17 Medi
Cyfathrebu rhwng canolfannau a myfyrwyr a rhieni/gwarcheidwaid	Cyfathrebu polisi canolfan a ffynonellau o dystiolaeth							
		Cyfathrebu marciau/graddau am ddarnau unigol o waith lle y bo'n briodol, a manylion unrhyw amgylchiadau arbennig a allai fod wedi'u hystyried						
			Cyfathrebu prosesau'r ganolfan ar gyfer adolygiadau canolfannau ac apeliadau					
Cyfathrebu rhwng y myfyrwyr a'r canolfannau	Cyfathrebu unrhyw bryderon ynghylch cymhwyso Polisi'r Ganolfan neu ffynonellau o dystiolaeth							
		Cyfathrebu unrhyw amgylchiadau arbennig i'w hystyried, e.e. trefniadau mynediad coll, unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi effeithio ar berfformiad mewn asesiadau						
Gwirio gweithdrefnau yn y ganolfan: gweler Atodiad Dd			Y ganolfan yn gwirio ei gweithdrefnau ac yn cywiro gwallau a gafwyd yn y TAG drwy'r sefydliad dyfarnu cyn diwrnod y canlyniadau			Y ganolfan yn gwirio ei gweithdrefnau mewn ymateb i adolygiadau canolfannau		
Gwirio dogfennau'r ganolfan: gweler Atodiad C				Y ganolfan yn gwirio'r ddogfennaeth ac yn cywiro gwallau a gafwyd yn y TAG drwy'r sefydliad dyfarnu cyn diwrnod y canlyniadau		Y ganolfan yn gwirio ei dogfennaeth mewn ymateb i'r adolygiadau canolfannau		

Noder:

Rhoddyd yr hyblygrwyd i ganolfannau i greu dulliau a phrosesau sy'n gweithio orau i fodloni eu hanghenion nhw ac anghenion eu myfyrwyr. Nid yw'r amserlen yn y ddogfen hon yn ofynnol. Cyfnodau sydd yma ar gyfer cynnal y gweithgaredd.

Noder:

Gellir cynnal mwy o wiriadau ar weithdrefnau a dogfennaeth canolfan cyn neu ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Pwysigrwydd cadw tystiolaeth	3
3. Rhannu gwybodaeth â myfyrwyr	4
4. Gwallau gweithdrefnol a gweinyddol gan ganolfannau	6
5. Cam Un – adolygiadau canolfan	7
6. Cam Dau – apeliadau i'r sefydliad dyfarnu	13
7. Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau	18
8. Apeliadau ar gyfer Ymgeiswyr Preifat	19
9. Dyddiadau Allweddol – ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau	20
10. Terfynau amser	21
Atodiadau	22

1. Cyflwyniad

Ni fu modd cynnal cyfres arholiadau haf 2021 oherwydd pandemig COVID-19. Bydd cynifer â phosibl o fyfyrwyr nawr yn ennill cymwysterau yn seiliedig ar Raddau a Asesir gan Athrawon, sy'n seiliedig ar y cynnwys sydd wedi cael ei addysgu iddynt.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r broses apeliadau eithriadol ar gyfer canlyniadau a roddwyd yn ystod haf 2021 gan sefydliadau dyfarnu'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ) ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- **Dyfarniad Uwch Estynedig mewn Mathemateg**
- **Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA**
- **Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad AQA**
- **Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA**
- **Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt**
- **Cymwysterau Technegol Caergrawnt**
- **Cymhwyster y Project Estynedig**
- **FSMQ**
- **TAG UG a Safon Uwch**
- **TGAU**
- **Tystysgrif Lefel 3 mewn Mathemateg Graidd**
- **Cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad OCR**
- **Tystysgrif Lefel Mynediad CBAC**
- **Lladin Lefel 1/2 CBAC**
- **Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC**
- **Tystysgrif Lefel 2 CBAC mewn Mathemateg Ychwanegol**
- **Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol Lefel 3 CBAC**

Os nad yw eich cymhwyster wedi'i gynnwys yma, dylech gyfeirio at ddogfennau'r sefydliad dyfarnu unigol. Dylai canolfannau yng Nghymru, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, yr Alban ac mewn gwledydd tramor sy'n dilyn Cymwysterau Cyffredinol CBAC gyfeirio at y canllawiau ar apelio a gyhoeddwyd gan CBAC. Dylai canolfannau sy'n dilyn Cymwysterau Cyffredinol Eduqas neu Gymwysterau Cyffredinol CBAC yng Ngogledd Iwerddon gyfeirio at y canllawiau hyn gan JCQ.

Mae'r broses apelio ar gyfer haf 2021 yn galluogi myfyrwyr i apelio yn erbyn eu gradd os ydynt yn credu bod gwall wedi cael ei wneud. **Rhaid** iddynt ofyn i'w canolfan edrych i weld a oes gwall gweinyddol neu weithdrefnol wedi cael ei wneud yn y lle cyntaf. Bydd canllawiau JCQ i fyfyrwyr ar apelio ar gael yn <https://www.jcq.org.uk/summer-2021-arrangements/> cyn diwrnod y canlyniadau.

Ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, TGAU Ieithoedd Tramor Modern, TAG Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg, bydd y rhesymau dros apelio a nodir isod hefyd yn berthnasol i'r cymeradwyaethau ar wahân.

Os bydd y ganolfan yn canfod gwall mewn perthynas â'r radd a gyflwynwyd ganddi i'r sefydliad dyfarnu, rhaid iddi gyflwyno gradd ddiwygiedig ynghyd â'r sail resymegol dros newid y radd i'r sefydliad dyfarnu. Os bydd y sefydliad dyfarnu yn fodlon ar y sail resymegol a gyflwynwyd gan y ganolfan **ac** o'r farn ei bod yn briodol cywiro'r canlyniad, bydd yn rhoi gradd ddiwygiedig.

Os na fydd y ganolfan o'r farn bod gwall wedi cael ei wneud, ond bod y myfyriwr yn dal i gredu fel arall, gall y myfyriwr ofyn i'r ganolfan gyflwyno apêl i'r sefydliad dyfarnu ar ei ran. **Rhaid** i'r ganolfan gyflwyno apêl y myfyriwr os gofynnir iddi wneud hynny, a rhaid iddi gyflwyno'r holl dystiolaeth ategol sy'n ofynnol.

Yn dibynnu ar y rhesymau dros apelio, bydd y sefydliad dyfarnu yn ystyried y canlynol:

- a yw'r radd yn dangos bod barn academiaidd wedi cael ei harfer yn afresymol
- a/neu a ddilynodd y ganolfan ei gweithdrefnau'n briodol ac yn gyson wrth benderfynu ar ganlyniad y myfyriwr neu wrth gynnal ei hadolygiad
- a/neu a wnaeth y sefydliad dyfarnu wall gweinyddol.

Bwriedir i'r gweithdrefnau hyn fodloni'r Fframwaith Dyfarnu Amgen ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer haf 2021 –

<https://www.gov.uk/government/publications/general-qualifications-alternative-awarding-framework>

ynghyd ag amodau cyffredinol/safonol ac amodau lefelau cymwysterau perthnasol y rheoleiddwyr cymwysterau ar gyfer Cymru a Lloegr (Cymwysterau Cymru ac Ofqual). Mae eu dogfennaeth reoleiddiol yn sail i brosesau apelio'r sefydliadau dyfarnu.

Dim ond i apeliadau yn erbyn canlyniad a roddwyd yn ystod haf 2021 y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol. Bydd dogfen JCQ,

Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu: Yn weithredol o gyfres arholiadau Tachwedd 2020, yn dal yn berthnasol i apeliadau yn erbyn darganfyddiadau o gamymddwyn, y gosb a roddwyd gan sefydliad dyfarnu, a threfniadau mynediad/addasiadau rhesymol ar gyfer cyfres arholiadau yn y dyfodol. Nid yw apeliadau yn erbyn canlyniadau gwasanaethau ar ôl canlyniadau nac ystyriaeth arbennig yn berthnasol i gyfres arholiadau haf 2021.

Bydd unrhyw gosbau y bydd canolfan yn eu rhoi i fyfyrwr yn ddibynnol ar broses apelio fewnol y ganolfan.

2. Pwysigrwydd cadw tystiolaeth

- 2.1 Mae'n bwysig bod yr holl dystiolaeth y mae gradd myfyriwr yn seiliedig arni, gan gynnwys copïau o waith y myfyriwr ac unrhyw gofnodion marcio, yn cael ei chadw'n ddiogel lle bo modd. Bydd angen y dystiolaeth hon er mwyn helpu i bennu graddau myfyriwr a chefnogi prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol ac apeliadau. Nid yw'n ofynnol cadw'r fersiwn wreiddiol, a bydd copi o dystiolaeth ysgrifenedig wedi'i sganio neu ddogfen ddigidol yn dderbyniol.

Yn unol â dogfen Ofqual, *Information for heads of centre, heads of department and teachers on the submission of teacher assessed grades: Summer 2021*

<https://www.gov.uk/government/publications/submission-of-teacher-assessed-grades-summer-2021-info-for-teachers>

rheid i'r ganolfan gadw unrhyw dystiolaeth a grëwyd ar ôl 24 Mawrth 2021.

- 2.2 Gallai fod angen tystiolaeth o berfformiad myfyriwr na chafodd ei defnyddio i bennu graddau ar gyfer y broses apelio mewn achosion eithriadol os bydd y sefydliad dyfarnu o'r farn bod y dystiolaeth a ddewiswyd yn afresymol. Os bydd tystiolaeth o'r fath yn dal i fodoli ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, ni ddylid ei dinistrio/dileu na'i dychwelyd i'r myfyriwr. Os bydd myfyriwr yn apelio am ei fod yn credu bod y ganolfan wedi arfer barn academaidd yn afresymol wrth ddewis y dystiolaeth a ddefnyddiwyd, mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno tystiolaeth amgen i sefydliad dyfarnu (**gweler paragraffau 6.24, 6.26 a 6.27** am ragor o wybodaeth am apelio am resymau'n ymwneud â barn academaidd). Gallai'r myfyriwr dynnu sylw at y dystiolaeth amgen hon pan fydd canolfan yn rhannu gwybodaeth ag ef am y broses o bennu ei radd (**gweler adran 3 a pharagraff 6.21**).

- 2.3 Rhaid i ganolfannau gadw unrhyw wybodaeth am drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol myfyriwr, neu amgylchiadau lliniarol sy'n effeithio ar ei berfformiad mewn asesiad. Bydd hyn wedi'i ystyried yn ystod y broses o bennu gradd myfyriwr hyd yn oed os penderfynwyd nad oedd hyn berthnasol. Rhaid i hyn gynnwys y rheswm dros benderfyniad yr athro.

- 2.4 Dylai cofnodion o dystiolaeth myfyriwr gael eu cadw o fewn cyrraedd fel bod modd eu defnyddio os bydd myfyriwr am apelio yn erbyn ei radd. Mae rhestr wirio o dystiolaeth i helpu canolfannau i reoli hyn i'w gweld yn **Atodiad C** a hefyd yn: <https://www.jcq.org.uk/summer-2021-arrangements/>

Gweler adran 8 mewn achosion lle mae canolfannau wedi derbyn cofrestradau gan Ymgeiswyr Preifat.

Tystiolaeth goll

- 2.5 Os nad yw'r holl dystiolaeth neu'r holl gofnodion wedi cael eu cadw, bydd sefydliad dyfarnu yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael wrth benderfynu ar ganlyniad yr apêl. Gall hyn effeithio ar allu'r sefydliad dyfarnu i adolygu penderfyniad y ganolfan. Os na chadwyd dim tystiolaeth (neu os cafodd ei cholli oherwydd sefyllfa annisgwyl) mae'n bosibl y bydd angen i'r sefydliad dyfarnu benderfynu ar ganlyniad yr apêl yn seiliedig ar y marciau/graddau a ddefnyddiwyd i bennu'r radd yn unig. Bydd yr apêl yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.

Pa dystiolaeth y gall fod angen ei chyflwyno fel rhan o apêl i sefydliad dyfarnu?

- 2.6 Gweler **Atodiad C** am restr o'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer apeliadau i sefydliad dyfarnu. Mae'r rhestr wirio hon a awgrymir, sydd â'r nod o gefnogi canolfannau, hefyd i'w gweld yn: <https://www.jcq.org.uk/summer-2021-arrangements/>
- 2.7 Bydd cyflwyno'r dystiolaeth hon ar adeg yr apêl yn osgoi oedi wrth brosesu'r apêl a gohebiaeth ddiangen rhwng y sefydliad dyfarnu a'r ganolfan.
- 2.8 Os mai gwall gweinyddol gan y sefydliad dyfarnu yw'r unig reswm dros yr apêl, yr unig beth y bydd angen ei ddangos wrth apelio yw bod y radd derfynol a gyflwynwyd gan y ganolfan i'r sefydliad dyfarnu yn wahanol i'r radd a roddwyd gan y sefydliad dyfarnu.

3 Rhannu gwybodaeth â myfyrwyr

- 3.1 Bydd myfyrwyr yn awyddus i ddeall sut y caiff eu graddau eu pennu yr haf hwn, fel y gallant fod yn hyderus y caiff y broses ei dilyn yn deg ac yn gyson.
- 3.2 Bydd myfyrwyr hefyd am ddeall y camau y gallant eu cymryd os byddant yn credu bod rhywbeth wedi mynd o'i le wrth bennu gradd a sut y gallant wneud cais am adolygiad canolfan ac apêl i sefydliad dyfarnu.

Disgwylir i ganolfannau gefnogi myfyrwyr drwy'r adolygiad canolfan a'r broses o apelio i sefydliad dyfarnu.

Gwybodaeth y gall canolfan ei rhannu â myfyrwyr

- 3.3 Fel y nodir yn *JCQ Guidance on the determination of grades for A/AS Levels and GCSEs for Summer 2021*, dylai fod llai o angen cynnal adolygiadau canolfan ac apeliadau i sefydliadau dyfarnu os bydd canolfan yn rhannu'r wybodaeth ganlynol â'u myfyrwyr:
- y ffynonellau tystiolaeth a gaiff eu defnyddio i bennu eu gradd ynghyd ag unrhyw raddau/marciau sy'n gysylltiedig â nhw (os bydd y ganolfan o'r farn bod hynny'n briodol). Bydd y tryloywder hwn yn galluogi myfyrwyr i ganfod unrhyw wallau neu dynnu sylw at amgylchiadau sy'n gysylltiedig â darnau o dystiolaeth, a dylai leihau nifer yr achosion lle y bydd myfyrwyr yn gwneud cais am adolygiad canolfan neu apêl i sefydliad dyfarnu ar ôl i'r canlyniadau gael eu rhoi
 - polisi'r ganolfan ac unrhyw ddogfennaeth ategol
 - manylion unrhyw amrywiadau yn y dystiolaeth a ddefnyddir yn seiliedig ar achosion o darfu ar yr hyn a addysgwyd i fyfyrwr
 - manylion unrhyw amgylchiadau arbennig a ystyriwyd wrth bennu'r radd, e.e. trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol neu amgylchiadau lliniarol fel afiechyd.
- 3.4 Rydym yn argymhell y dylai canolfannau rannu'r wybodaeth hon â'u myfyrwyr cyn diwrnod y canlyniadau. Fodd bynnag, os na fu modd i ganolfan rannu'r wybodaeth hon cyn diwrnod y canlyniadau, rhaid iddi fod yn barod i wneud hynny ar ddiwrnod y canlyniadau neu ar ôl hynny os bydd myfyrwr yn gofyn iddi wneud hynny. Gall fod yn ddefnyddiol i ganolfannau gyfeirio at [ganllawiau](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar allu myfyrwyr i gael gwybodaeth am ganlyniadau eu harholiadau, papurau arholiad ac eithriadau i farciau arholiadau.

Gwybodaeth y mae'n rhaid i ganolfan ei rhannu â myfyrwyr cyn dyddiad y canlyniadau

- 3.5 Cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, rhaid i ganolfannau gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff pob myfyrwr, gan gynnwys Ymgeiswyr Preifat, wybodaeth am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau canolfan ac apelio i'r sefydliad dyfarnu yn dilyn adolygiad canolfan, gan gynnwys rhoi datganiad o'r trefniadau yn brydlon pan ofynnir am hynny.

Gwybodaeth na chaiff canolfan ei rhannu â myfyrwyr cyn dyddiad y canlyniadau

- 3.6 Mae'n ofynnol i ganolfannau gadw graddau myfyrwyr yn gyfrinachol. **Ni chaniateir** i fyfyrwyr gael gwybod y Graddau Asesu Athrawon terfynol a roddwyd i'r sefydliad dyfarnu. Dim ond ar y dyddiad canlyniadau a gyhoeddwyd, ar ôl i'r sefydliad dyfarnu gyhoeddi'r graddau terfynol, y caniateir rhannu'r graddau â'r myfyrwyr.
- 3.7 Disgwylir y bydd graddau'n seiliedig ar amrywiaeth o dystiolaeth. Fodd bynnag, os mai Cymhwyster y Project Estynedig neu gymhwyster sy'n cynnwys un portffolio yn unig sydd dan sylw, **ni chaniateir** rhannu'r radd â'r ymgeisydd ar gyfer y darn hwnnw o dystiolaeth cyn y dyddiad canlyniadau a gyhoeddwyd.
- 3.8 Os caiff Gradd Asesu'r Athro ei rhannu ag unrhyw fyfyrwr, neu unrhyw un arall, cyn y dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer rhyddhau'r canlyniadau, ystyrir bod hynny'n achos o gamymddwyn a bydd y sefydliad dyfarnu perthnasol yn cymryd camau priodol.

4. Gwallau gweinyddol gan ganolfannau

- 4.1 Er y bydd canolfannau wedi cynnal gwiriadau mewnol cadarn ac ymarfer sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y graddau a gyflwynir ganddynt i sefydliadau dyfarnu yn gywir, bydd posibilrwydd bach bob amser y caiff gwall gweithdrefnol neu weinyddol ei ganfod, y tu allan i broses yr adolygiad canolfan, cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi. Ar ôl i'r graddau gael eu cyflwyno, efallai yr hoffai canolfan gynnal ymarfer sicrhau ansawdd pellach er mwyn lleihau nifer yr adolygiadau canolfan posibl yn seiliedig ar wallau gweinyddol.
- 4.2 Os bydd hyn yn digwydd ar ôl i Raddau Asesu'r Athrawon gael eu cyflwyno, ond cyn i borth ar-lein y sefydliad dyfarnu ar gyfer cyflwyno Graddau Asesu Athrawon gau, bydd yn rhaid i'r ganolfan ailgyflwyno Gradd Asesu Ddiwygiedig yr Athro. Bydd yn rhaid cyflwyno Datganiad Pennaeth y Ganolfan newydd hefyd.
- 4.3 Os caiff gwall gweithdrefnol neu weinyddol ei ganfod cyn diwrnod y canlyniadau, ond ar ôl i borth ar-lein y sefydliad dyfarnu ar gyfer cyflwyno Graddau Asesu Athrawon gau, bydd yn rhaid i'r ganolfan gysylltu â'r sefydliad dyfarnu perthnasol i roi manylion y gwall iddi. Lle y bo'n briodol, ac os bydd amser, bydd y sefydliad dyfarnu yn cywiro'r gwall cyn i'r canlyniadau gael eu rhannu â'r myfyrwr.
- 4.4 Mewn nifer bach o achosion, mae'n bosibl y caiff y gwall ei ganfod yn rhy agos at ddiwrnod y canlyniadau i'r sefydliad dyfarnu allu ei gywiro cyn i'r myfyriwr gael ei ganlyniadau. Os felly, bydd yn rhaid i'r ganolfan egluro i'r myfyriwr pan gaiff ei ganlyniadau fod gwall wedi cael ei ganfod a bod y sefydliad dyfarnu wedi cael gwybod amdano er mwyn ei gywiro. Rhaid i'r ganolfan esbonio i'r myfyriwr beth fydd effaith debygol hyn ar ei radd, yn enwedig os bydd y radd yn is o'r herwydd. Bydd y sefydliad dyfarnu yn cyhoeddi'r radd ddiwygiedig cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod y canlyniadau.
- 4.5 Os bydd canolfan yn canfod gwall yn y cyfnod ar ôl y canlyniadau, ond nid o ganlyniad i gais am adolygiad canolfan gan y myfyriwr, dylai ddilyn y cyngor a nodir ym **mharagraffau 5.25 i 5.27** cyn penderfynu a ddylid cyflwyno gradd ddiwygiedig i'r sefydliad dyfarnu ai peidio.
- 4.6 Ar ôl diwrnod y canlyniadau, os byddwch yn canfod gwall sydd wedi effeithio ar fyfyrwr ac nad yw'r myfyriwr hwnnw wedi apelio, cyfeiriwch at y canllawiau yn **Atodiad Ch – Canllawiau i ganolfannau ar newid graddau ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi**. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd gan fyfyrwyr hawl i apelio yn erbyn y newid i'r radd.
- 4.7 Mae manylion am sut i roi gwybod i bob sefydliad dyfarnu am wall gweithdrefnol neu weinyddol i'w gweld yn **Atodiad A**.

5. Cam Un – adolygiadau canolfan

5.1 Dyma gam cyntaf y broses apelio yn ystod haf 2021. Mae'r adran hon yn esbonio rôl y ganolfan wrth ymdrin â cheisiadau gan fyfyrwyr sy'n dymuno cywiro gwall canfyddedig ar ôl iddynt gael eu graddau.

Gall gwiriadau gweithdrefnol a gweinyddol gael eu cynnal cyn neu ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi pan gânt eu hysgogi gan brosesau sicrhau ansawdd y ganolfan ei hun. Er enghraifft, efallai y bydd canolfan yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd os bydd myfyriwr yn herio'r wybodaeth a rannwyd ym **mharagraff 3.3** ac yn cadw'r cofnodion hyn i'w defnyddio ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi. Rhaid i'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad a ddisgrifir ym **mharagraffau 5.18 a 5.19** fod ar gael unrhyw bryd ar ôl i'r graddau gael eu cyflwyno. Os bydd canolfan wedi cwblhau gwiriad ymlaen llaw, ni fydd yn rhaid iddi gynnal y gwiriad eto ar ôl diwrnod y canlyniadau cyhyd â bod y gwiriadau a gynhaliwyd yn flaenorol wedi mynd i'r afael â'r mater a godwyd gan y myfyriwr a bod y mater wedi cael ei gyflwyno i'r sefydliad dyfarnu yn achos apêl i'r sefydliad dyfarnu.

Mewn achosion lle y bydd myfyriwr yn codi mater na chafodd ei ystyried mewn gwiriadau a gynhaliwyd cyn diwrnod y canlyniadau, bydd angen i'r mater newydd hwn gael ei ystyried er mwyn i'r adolygiad canolfan gael ei gwblhau.

Pwy sy'n gallu gwneud cais am adolygiad a phryd?

5.2 Gall unrhyw fyfyrwr, gan gynnwys Ymgeisydd Preifat, wneud cais am adolygiad canolfan am y rheswm bod y ganolfan:

- wedi methu â dilyn ei gweithdrefnau'n briodol neu'n gyson wrth benderfynu ar y canlyniad hwnnw neu
- wedi gwneud gwall gweinyddol mewn perthynas â'r canlyniad.

5.3 Dim ond sefydliad dyfarnu (ar Gam Dau) fydd yn ystyried ceisiadau am apeliadau am resymau'n ymwneud â barn academiaidd (afresymoldeb), ac nid canolfannau. Yn yr achosion hyn, bydd yn rhaid cwblhau adolygiad canolfan cychwynnol o hyd er mwyn sicrhau nad yw'r ganolfan wedi gwneud unrhyw wallau gweithdrefnol na gweinyddol. Ni ddylai'r ganolfan adolygu ei phenderfyniadau ar sail barn academiaidd yn ystod adolygiad canolfan.

5.4 Er mwyn penderfynu a ddylid gwneud cais am adolygiad, bydd angen i fyfyrwyr gael rhywfaint o wybodaeth cyn diwrnod y canlyniadau, neu ar y diwrnod ei hun, os na fydd eisoes wedi'i chael. Rhaid i hyn gynnwys:

- a. polisi'r ganolfan
- b. y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu gradd y myfyriwr, ynghyd â'r graddau/marciau sy'n gysylltiedig â nhw
- c. manylion unrhyw amrywiadau yn y dystiolaeth a ddefnyddir yn seiliedig ar achosion o darfu ar yr hyn a addysgwyd i fyfyrwr
- ch. manylion unrhyw amgylchiadau arbennig a ystyriwyd wrth bennu'r radd, e.e. trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol neu amgylchiadau lliniarol fel afiechyd.

5.5 Rhaid cwblhau adolygiad canolfan a rhannu'r canlyniad â'r myfyriwr cyn bod modd apelio i'r sefydliad dyfarnu (**gweler y dyddiadau allweddol yn adran 9**). Bydd y sefydliad dyfarnu yn gwrthod unrhyw gais am apêl lle na fydd hyn wedi digwydd a bydd angen gwneud cais newydd pan fydd adolygiad y ganolfan wedi'i gwblhau.

5.6 Rhaid i bob cais am adolygiad canolfan, gan gynnwys ceisiadau gan Ymgeiswyr Preifat, gael ei wneud yn uniongyrchol i'r ganolfan a gyflwynodd y radd/y graddau. Argymhellir y dylai ceisiadau am adolygiadau canolfan gael eu gwneud gan yr ymgeisydd i'r ganolfan erbyn:

- **16 Awst 2021** (apeliadau â blaenoriaeth – ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall)
- **3 Medi 2021** (ym mhob achos arall).

Bydd hyn yn galluogi canolfannau i gyflwyno ceisiadau am apeliadau i sefydliadau dyfarnu erbyn y dyddiadau cau.

- 5.7 Os na chaiff adolygiadau canolfan eu cyflwyno erbyn y dyddiadau hyn, mae'n bosibl na chaiff apeliadau eu cwblhau mewn pryd i'r myfyrwyr hynny y mae eu lle mewn sefydliad addysg uwch yn ddibynnol ar ganlyniad yr apêl.
- 5.8 Ar gyfer adolygiadau lle mae lle mewn sefydliad addysg uwch yn ddibynnol ar ganlyniad yr apêl, rhaid i fyfyrwyr gynnwys eu rhif adnabod UCAS personol. Dylai'r myfyriwr hefyd roi gwybod i'w ddewis ddarparwr addysg uwch ei fod wedi gwneud cais am adolygiad, a hynny cyn gynted â phosibl fel y gall benderfynu sut i ymdrin â'r cynnig.
- 5.9 O ystyried y terfynau amser tynn ar gyfer gwneud cais am adolygiadau canolfan, ac wedyn ar gyfer cyflwyno cais am apeliadau i sefydliadau dyfarnu, rhaid i ganolfannau:
- a) fod wedi rhoi proses sydd wedi'i dogfennu'n glir ac adnoddau priodol ar waith er mwyn ymdrin â cheisiadau am adolygiadau ac apeliadau o ddiwrnodau canlyniadau ymlaen
 - b) cyfleu'r broses yn glir i fyfyrwyr cyn diwrnodau canlyniadau
 - c) allu cael gafael ar y deunyddiau sydd eu hangen ar y myfyriwr i asesu a phenderfynu a ddylai wneud cais am adolygiad (**gweler paragraff 5.4**).
- 5.10 Rhaid i ganolfannau dderbyn unrhyw gais am adolygiad gan fyfyrwr, a'i brosesu/ymchwilio iddo. Gallai methu â gwneud hynny fod yn gyfystyr â chamymddwyn ac mae'n ofynnol i sefydliadau dyfarnu gymryd camau dilynol mewn achosion o'r fath.

Gweinyddu ceisiadau am adolygiadau

- 5.11 Er mwyn helpu canolfannau a myfyrwyr i wneud cais am adolygiadau a'u cynnal yn brydlon, mae templed o ffurflen gais a ffurflen gydsynio ar gael yn **Atodiad B**. Mae'r sefydliadau dyfarnu yn annog canolfannau yn gryf i ddefnyddio'r ffurflen hon i sicrhau y caiff y wybodaeth gywir ei chofnodi. Fodd bynnag, os bydd canolfan am ddatblygu ei ffurflen ei hun, rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- a) enw'r myfyriwr a'r cymhwyster y mae'r adolygiad yn ymwneud ag ef
 - b) ar gyfer apeliadau â blaenoriaeth, rhif adnabod UCAS personol y myfyriwr
 - c) y radd sy'n cael ei herio
 - ch) y rheswm dros yr adolygiad – nid oes rhaid ei esbonio'n fanwl ond dylai roi cyfle i'r myfyriwr nodi, yn ei farn ef:
 - i. sut y methodd y ganolfan â dilyn ei gweithdrefnau'n briodol ac yn gyson a pham roedd y methiant hwnnw'n bwysig wrth bennu'r radd; a/neu
 - ii. y gwall gweinyddol a wnaed gan y ganolfan a pha wahaniaeth a wnaeth wrth bennu'r radd.
 - d) datganiad clir y gall graddau gael eu codi, aros yr un peth neu gael eu gostwng o ganlyniad i adolygiad, gyda lle i'r myfyriwr lofnodi i gadarnhau ei fod wedi darllen y datganiad a'i fod yn cydsynio i'r canlyniadau posibl
 - dd) lle i'r ganolfan gofnodi canlyniad ei hadolygiad, ynghyd â'r rheswm dros y canlyniad.

- 5.12 Rhaid i'r ganolfan gadw cofnod o'r holl geisiadau am adolygiad a ddaw i law, a chanlyniadau'r adolygiadau hynny. Y ganolfan fydd yn penderfynu sut i drefnu hyn, ond dylai fod yn hawdd cael gafael ar y wybodaeth o adolygiad canolfan, os gwneir cais i'r sefydliad dyfarnu am apêl wedi hynny.
- 5.13 Gall myfyriwr wneud cais am adolygiad ond penderfynu wedyn yr hoffai ei dynnu'n ôl. Dylid caniatáu hynny ar yr amod nad oes darganfyddiad wedi cael ei wneud. Ni ellir tynnu cais am adolygiad canolfan yn ôl os oes darganfyddiad wedi cael ei wneud.

Penderfynu ar ganlyniad adolygiad

- 5.14 Un enghraifft o wall gweinyddol gan ganolfan yw cymysgu rhwng graddau myfyrwyr ag enwau tebyg. Dylai fod yn hawdd canfod gwallau ffeithiol o'r fath a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.
- 5.15 Bydd y sefydliad dyfarnu eisoes wedi ystyried pa mor briodol yw gweithdrefn y ganolfan fel rhan o'i broses sicrhau ansawdd allanol. Felly, ffocws adolygiad am resymau gweithdrefnol fydd **a wnaeth y ganolfan ddilyn ei gweithdrefn yn briodol ac yn gyson wrth benderfynu ar y radd sy'n cael ei herio.**
- 5.16 Gall fod yn ddefnyddiol i ganolfannau gyfeirio at y dystiolaeth yn y rhestr wirio ar gyfer apeliadau i sefydliadau dyfarnu wrth gynnal adolygiad canolfan (gweler **Atodiad C** neu ewch i <https://www.jcq.org.uk/summer-2021-arrangements/>).
- 5.17 Ymhlith y mathau o fethiant gweithdrefnol y gall myfyriwr eu codi ac y bydd angen i ganolfan ymchwilio iddynt mae:
- a) a oedd unrhyw amgylchiadau lliniarol ac a gawsant eu hystyried ar adeg yr asesiad
 - b) a wnaed unrhyw drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt ar gyfer asesiad
 - c) y broses ar gyfer pennu graddau a sicrhau eu hansawdd (er enghraifft, safoni mewnol, dilysu gwaith myfyrwyr).
- 5.18 Gall gwiriadau gweithdrefnol a gweinyddol gael eu cynnal cyn neu ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi p'un a gânt eu hysgogi gan fyfyrwr neu gan brosesau sicrhau ansawdd y ganolfan ei hun. Bydd angen i ganolfannau allu cael gafael ar y cofnodion canlynol a bydd angen iddynt ystyried:
- a) y rheswm a roddwyd gan y myfyriwr dros wneud cais am adolygiad, os rhoddwyd rheswm, ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd gan y myfyriwr o faterion nad oeddent yn hysbys ar adeg pennu'r radd
 - b) polisi cymeradwy'r ganolfan ac a gafodd ei ddilyn yn briodol ac yn gyson
 - c) y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu gradd y myfyriwr
 - ch) unrhyw gofnodion asesu perthnasol sy'n nodi unrhyw newidiadau a wnaed ar gyfer y myfyriwr i'r amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y garfan a, lle y bo'n berthnasol, y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw amgylchiadau lliniarol/ystyriaeth arbennig hysbys neu drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol cymeradwy
 - d) cofnod bod y graddau wedi cael eu cymeradwyo gan o leiaf ddau athro yn y pwnc – gan gynnwys y pennaeth adran/arweinydd pwnc neu Bennaeth y Ganolfan os mai dim ond un athro oedd yn yr adran/pwnc
 - dd) y cofnod, os oes un, o unrhyw gyfathrebu perthnasol rhwng y ganolfan a'r myfyriwr cyn y canlyniadau (er enghraifft, os yw'r myfyriwr wedi codi amgylchiadau lliniarol yn gynharach yn y broses)
 - e) cofnodion gweinyddu perthnasol y ganolfan.

- 5.19 Mewn achosion lle y bydd y ganolfan o'r farn y bu methiant gweithdrefnol neu wall gweinyddol, bydd angen i'r ganolfan benderfynu a effeithiodd hyn ar y radd a gyflwynwyd i'r sefydliad dyfarnu.
- 5.20 Y canlyniadau posibl yw y caiff y radd ei chodi, ei bod yn aros yr un peth neu y caiff ei gostwng, yn dibynnu ar effaith y gwall neu'r methiant.

Enghreifftiau

- a) Cyn rhyddhau'r canlyniadau, gwnaeth myfyriwr gais am adolygiad am nad oedd yn credu bod y marciau/graddau a roddwyd i'r dystiolaeth a ddewiswyd wedi cael eu cofnodi'n gywir. Cynhaliodd y ganolfan adolygiad o dystiolaeth y myfyriwr a chadarnhaodd fod y marciau/graddau cywir wedi cael eu cynnwys wrth benderfynu ar radd y myfyriwr. Felly, nid oedd angen newid gradd y myfyriwr.
- b) Mae'r myfyriwr wedi gwneud cais am adolygiad am ei fod yn credu na wnaeth yr ysgol ystyried y ffaith nad oedd y trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer rhai o'r asesiadau a ddefnyddiwyd yn y dystiolaeth a ddewiswyd. Mae'r ganolfan yn canfod bod pryderon y myfyriwr yn gywir, ar ôl cadarnhau bod gan y myfyriwr hawl i gael trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol a methu â dod o hyd i gofnod eu bod ar waith ar gyfer dau o'r tri asesiad a ddefnyddiwyd yn nhystiolaeth y myfyriwr. Felly, bu **methiant gweithdrefnol**. Mae'r ganolfan yn adolygu'r radd ar gyfer y myfyriwr gan ystyried y darganfyddiad hwn, er mwyn penderfynu a fyddai ei phenderfyniad terfynol wedi newid o'r herwydd.
- c) Mae myfyriwr wedi gwneud cais am adolygiad canolfan am ei fod yn credu bod yr ysgol wedi cymysgu rhai o'r marciau sy'n rhan o'i dystiolaeth â marciau myfyriwr arall. Mae'r ganolfan yn darganfod bod pryderon y myfyriwr yn gywir: bu **gwall gweinyddol**. Mae'r ganolfan yn adolygu gradd y myfyriwr er mwyn penderfynu a fyddai ei phenderfyniad terfynol wedi newid o'r herwydd. Roedd gan y darn o waith y rhoddyd marc is iddo drwy gamgymeriad fwy o bwysoliad tuag at y radd derfynol. Penderfynodd y ganolfan fod cywiro hyn wedi codi'r radd derfynol o B i A.

- 5.21 Mae'n bosibl i fethiant gweithdrefnol neu wall gweinyddol gael ei ganfod heb i hynny gael unrhyw effaith ar y radd a roddwyd. Os felly, canlyniad yr adolygiad fyddai bod y radd yn aros yr un peth.

Enghreifftiau

- a) Mae'r ganolfan yn darganfod bod marciau un darn o dystiolaeth wedi cael eu rhoi i ddarn arall o dystiolaeth drwy gamgymeriad, ond bod y gwahaniaethau'n fach a phwysoliad pob darn o dystiolaeth yn debyg, felly effaith gyffredinol cywiro'r gwallau yw bod y radd a roddwyd eisoes yn gywir ac felly'n aros yr un peth.
- b) Mae'r ganolfan yn darganfod na chafodd gradd y myfyriwr ei gwiro na'i chadarnhau gan ail aelod o staff ond, ar ôl cwblhau'r cam hwn, gwelir bod y radd a roddwyd yn gywir o hyd. Yn yr achos hwn, gwelwyd bod y radd yn gyson â'r dystiolaeth o berfformiad y myfyriwr a ddefnyddiwyd i'w phennu, felly nid oedd angen ei newid.

- 5.22 Mae'n bosibl i fethiant gweithdrefnol neu wall gweinyddol gael ei ganfod yn yr adolygiad a bod ei gywiro yn arwain at ostwng y radd. Gan gymryd yr enghraifft o fethiant gweithdrefnol yn 5.20 (b) uchod, gallai methiant yn y broses o wirio a chadarnhau graddau, pan gaiff ei ddatrys o ganlyniad i adolygiad canolfan, arwain at ddarganfod y dylai'r radd fod wedi cael ei gostwng mewn gwirionedd o ganlyniad i'r broses honno am i'r ganolfan ddarganfod bod y radd yn rhy hael mewn perthynas â'r dystiolaeth o berfformiad y myfyriwr a ddefnyddiwyd i bennu'r radd.

- 5.23 Fel yn achos yr enghraifft o wall gweinyddol uchod yn 5.21 (a), gallai marc is a roddwyd drwy gamgymeriad effeithio ar ddarn o waith sydd â mwy o bwysoliad na'r darn arall o dystiolaeth. Pan gaiff hyn ei ddatrys o ganlyniad i adolygiad y ganolfan, gellid darganfod y dylai'r radd fod yn is.

- 5.24 Mewn achosion o'r fath, bydd y myfyriwr a ofynnodd yr adolygiad eisoes wedi cydsynio i'w radd gael ei gostwng fel canlyniad posibl ac felly dylai'r ganolfan wneud cais i'r sefydliad dyfarnu perthnasol ostwng y radd.
- 5.25 Gall yr adolygiad dynnu sylw at fyfyrwyr eraill y mae'r un mater wedi effeithio arnynt. Mewn rhai achosion, gellir darganfod bod gradd y myfyrwyr hynny yn is nag y dylai fod a dylai'r ganolfan unioni hyn. Mewn achosion eraill, efallai y bydd y graddau a roddwyd i fyfyrwr neu fyfyrwyr yn rhy uchel. Er enghraifft, gallai marciau un myfyriwr fod wedi cael eu cymysgu â marciau myfyriwr arall, gan olygu bod gradd un myfyriwr yn uwch nag y dylai fod, ond bydd yn annhebygol bod y myfyriwr â'r radd uwch wedi gwneud cais am adolygiad canolfan.
- 5.26 Ni fydd y myfyrwyr hyn wedi cydsynio i'w graddau gael eu gostwng oni bai eu bod wedi gwneud ceisiadau ar wahân am adolygiadau. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r ganolfan ystyried effaith gostwng graddau'r myfyrwyr yn ofalus cyn gofyn i'r sefydliad dyfarnu wneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn briodol gostwng y radd, oherwydd gallai peidio â gwneud hynny gael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd. Gallai caniatáu i radd anghywir sefyll hefyd gael effaith andwyol ar gyflogwyr neu sefydliadau addysg a fydd yn dibynnu ar y radd yn y dyfodol, yn ogystal â'r myfyriwr, er enghraifft os bydd yn cael lle ar gwrs nad yw'n gymwys ar ei gyfer. Fodd bynnag, gallai cywiro'r radd ar y pwynt hwn gael effaith andwyol ar y myfyriwr dan sylw hefyd.
- 5.27 Dylai canolfannau gyfeirio at **Atodiad Ch** – *Canllawiau ar gywiro canlyniadau anghywir* mewn achosion lle nad yw myfyrwyr wedi gwneud cais am adolygiad nac apêl.

Rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad – cyn cyhoeddi'r canlyniadau

- 5.28 Os caiff adolygiad canolfan ei gynnal cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, a bod gwall yn cael ei ganfod, gellir cywiro'r gwall cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi. Gall canolfannau roi cadarnhad i'r myfyriwr bod yr adolygiad wedi cael ei gwblhau, bod gwall wedi cael ei ganfod a bod y camau priodol wedi cael eu cymryd i gywiro'r gwall. Fodd bynnag, ni chaniateir i ganolfannau rannu gwybodaeth am unrhyw radd newydd sydd wedi cael ei chyflwyno ar gyfer y myfyriwr tan ddyddiad cyhoeddi'r canlyniadau.

Rhoi gwybod am ganlyniad adolygiad – ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau

- 5.29 Pan fydd y ganolfan wedi ystyried yr adolygiad ac wedi penderfynu a oes angen newid gradd oherwydd methiant gweithdrefnol neu wall gweinyddol, rhaid iddi naill ai roi gwybod i'r myfyriwr a ofynnodd am yr adolygiad beth oedd y canlyniad (os nad yw'r radd wedi newid) neu ofyn i'r sefydliad dyfarnu newid y radd.
- 5.30 Os bydd adolygiad y ganolfan yn darganfod methiant ac yn dod i'r casgliad bod angen newid gradd, rhaid i'r ganolfan wneud cais cywiro gwall i'r sefydliad dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl a chyn rhoi gwybod i'r myfyriwr beth yw'r canlyniad. Mae manylion am sut i wneud hyn ar gyfer pob sefydliad dyfarnu i'w gweld yn **Atodiad A**.
- 5.31 Rhaid i'r cais cywiro gwall i'r sefydliad dyfarnu gynnwys canlyniad yr adolygiad a'r rheswm dros y penderfyniad a wnaed, a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan bennaeth y ganolfan neu aelod penodedig o'r uwch dîm arwain. Wedyn, bydd staff y sefydliad dyfarnu yn ystyried y canlyniad a'r rhesymau ac yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â newid y radd.
- 5.32 Bydd y ganolfan yn cael gwybod y graddau diwygiedig er mwyn eu rhannu â'r myfyriwr ynghyd â phenderfyniad adolygiad y ganolfan. Mewn achosion lle y bydd y sefydliad dyfarnu yn anghytuno â phenderfyniad y ganolfan i newid gradd o ganlyniad i adolygiad ac o'r farn y byddai'n amhriodol gwneud hynny neu y byddai gradd wahanol yn briodol, bydd y sefydliad dyfarnu yn egluro ei resymau i'r ganolfan.

- 5.33 Gall y ganolfan ddefnyddio'r templed yn **Atodiad B** i rannu'r penderfyniad â'r myfyriwr neu ei nodi mewn llythyr canlyniad ar wahân. Rhaid nodi:
- a) p'un a ddarganfuwyd methiant gweithdrefnol neu wall gweinyddol yn yr adolygiad ai peidio
 - b) os felly, beth oedd y gwall
 - c) y rheswm dros y darganfyddiad
 - ch) a newidiwyd y radd ac, os felly, beth yw'r radd newydd (os gwneir hyn cyn i'r canlyniadau gael eu rhyddhau, ni ddylid rhoi'r wybodaeth hon)
 - d) rheswm dros newid y radd neu beidio (gan gynnwys unrhyw esboniad ychwanegol gan y sefydliad dyfarnu os oedd ei benderfyniad yn wahanol i benderfyniad y ganolfan);
 - dd) gwybodaeth am y camau nesaf os yw'r myfyriwr am apelio i'r sefydliad dyfarnu.
- 5.34 Rhaid i'r ganolfan gadw cofnod o ganlyniad pob adolygiad.
- 5.35 P'un a ddarganfuwyd methiant gweithdrefnol neu weinyddol ai peidio, a ph'un a newidiodd y radd ai peidio o ganlyniad i hynny, mae gan bob myfyriwr hawl i apelio i'r sefydliad dyfarnu fel cam nesaf y broses.
- 5.36 Rhaid i unrhyw gais am apêl i'r sefydliad dyfarnu gael ei gyflwyno ar ran y myfyriwr gan y ganolfan a gynhaliodd yr adolygiad perthnasol, gyda chydsyniad y myfyriwr. Gellid tybio bod gwrthod cyflwyno cais am apêl ar ran y myfyriwr yn achos o gamymddwyn ac mae'n bosibl y bydd y sefydliad dyfarnu yn ymchwilio i'r mater felly.

6. Cam Dau – apeliadau i'r sefydliad dyfarnu

Dyma ail gam y broses apelio yn ystod haf 2021. Mae'r adran hon yn esbonio rôl y ganolfan yn y broses o wneud cais i sefydliadau dyfarnu am apêl ar ran myfyrwyr, gan gynnwys y wybodaeth ategol y bydd ei hangen, yr hyn y bydd y sefydliad dyfarnu yn ei wneud a'r ffordd y caiff canlyniadau eu rhannu.

Pwy sy'n gallu gwneud cais am apêl a phryd?

- 6.1 Gall unrhyw fyfyrwr, gan gynnwys Ymgeisydd Preifat, sy'n credu bod gwall gweithdrefnol neu wall gweinyddol wedi cael ei wneud neu fod ei radd yn dangos bod barn academaidd wedi cael ei harfer yn afresymol (naill ai oherwydd y ffordd y cafodd y radd ei phennu a/neu'r dystiolaeth a ddewiswyd), wneud cais am apêl i sefydliad dyfarnu **ar ôl iddo gael gwybod canlyniad ei adolygiad canolfan ac ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.**
- 6.2 Dim ond yn erbyn canlyniad a gyhoeddwyd y gellir apelio. Rhaid i unrhyw fyfyrwr sy'n credu bod penderfyniad y ganolfan i dynnu cofrestriad yn ôl am nad oes digon o dystiolaeth i bennu Gradd Asesu Athro, neu i beidio ?1 chofrestru'r myfyrwr yn y lle cyntaf, godi pryderon o'r fath drwy broses gwyno'r ganolfan. Gall unrhyw bryderon a fydd yn parhau ar ôl i broses gwyno'r ganolfan gael ei chwblhau gael eu codi wedyn drwy broses gwyno'r sefydliad dyfarnu.
- 6.3 Rhaid i bob cais am apêl gael ei wneud yn uniongyrchol i'r ganolfan a gyflwynodd y radd, ac mae'n rhaid iddo gyrraedd y sefydliad dyfarnu erbyn:
 - **23 Awst 2021** ar gyfer apeliadau â blaenoriaeth (ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall), neu erbyn
 - **17 Medi 2021** ar gyfer apeliadau heb flaenoriaeth.
- 6.4 Rhaid i bob cais am apêl, gan ymgeisydd mewnol neu Ymgeisydd Preifat, gael ei wneud i'r ganolfan a bennodd ac a gyflwynodd y radd a rhaid i'r ganolfan gyflwyno'r cais am apêl i'r sefydliad dyfarnu.
- 6.5 Os caiff apeliadau eu cyflwyno ar ôl y dyddiadau a nodir ym **mharagraff 6.3**, mae'n bosibl na chânt eu cwblhau mewn pryd ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall.
- 6.6 Ni fydd sefydliadau dyfarnu yn derbyn apeliadau yn uniongyrchol gan fyfyrwyr na rhieni. Ni chaiff apeliadau a gaiff eu cyflwyno i sefydliad dyfarnu yn uniongyrchol gan fyfyrwyr neu rieni eu prosesu a bydd angen eu hailgyflwyno drwy'r ganolfan. Gall hyn olygu na chaiff apeliadau eu cwblhau mewn pryd ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall.
- 6.7 Rhaid i unrhyw fyfyrwr sy'n gwneud cais am apêl flaenoriaethol gynnwys ei rif adnabod UCAS personol gyda'r cais am apêl er mwyn iddo gael ei brosesu felly. Dylai hefyd roi gwybod i'w ddarparwr addysg uwch ei fod wedi gwneud cais am apêl cyn gynted â phosibl fel y gall benderfynu sut i ymdrin â'r cynnig.

- 6.8 O ystyried pa mor bwysig yw hi i fyfyrwyr allu defnyddio'r broses apelio, a'r terfynau amser tynn ar gyfer cyflwyno a chwblhau apelïadau i sefydliadau dyfarnu, rhaid i ganolfannau:
- a) fod wedi rhoi proses sydd wedi'i dogfennu'n glir ac adnoddau priodol ar waith er mwyn ymdrin â cheisiadau am adolygiadau ac apelïadau o ddiwrnodau canlyniadau ymlaen
 - b) cyfleu'r broses yn glir i fyfyrwyr cyn diwrnodau canlyniadau
 - c) gallu cael gafael ar y deunyddiau sydd eu hangen i apelio er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen i'r sefydliad dyfarnu ofyn am ragor o wybodaeth
 - ch) sicrhau bod unigolyn cyswllt penodol ar gael i ymdrin ag unrhyw ymholiadau gan sefydliadau dyfarnu, a fydd yn gwybod am yr apelïadau a gyflwynwyd ac yn gallu helpu'n brydlon.
- 6.9 Rhaid i ganolfannau dderbyn a chyflwyno cais am apêl gan fyfyrwr. Gallai methu â gwneud hynny fod yn gyfystyr â chamymddwyn ac mae'n ofynnol i sefydliadau dyfarnu gymryd camau dilynol mewn achosion o'r fath. Wrth gyflwyno'r cais am apêl, dylid cynnwys canlyniad yr adolygiad canolfan cychwynnol sy'n dangos canfyddiadau'r ganolfan ei hun wrth ystyried pryderon y myfyrwr.
- 6.10 Ni ellir cyflwyno apêl i sefydliad dyfarnu nes bod adolygiad y ganolfan wedi cael ei gwblhau. Bydd y sefydliad dyfarnu yn gwrthod unrhyw apelïadau lle na fydd hyn wedi digwydd a bydd angen gwneud cais newydd pan fydd adolygiad y ganolfan wedi'i gwblhau.

Sut i apelio

- 6.11 Rhaid i ganolfan gyflwyno apêl i'r sefydliad dyfarnu os bydd y myfyrwr o'r farn:
- a) na wnaeth y ganolfan ddilyn ei gweithdrefn yn briodol nac yn gyson wrth benderfynu ar y canlyniad, neu yn ystod adolygiad y ganolfan
 - b) bod y sefydliad dyfarnu wedi gwneud gwall gweinyddol mewn perthynas â'r canlyniad¹
 - c) bod y ganolfan wedi arfer barn academaidd yn afresymol wrth ddewis tystiolaeth i'w defnyddio i bennu'r radd a/neu wrth bennu'r radd honno o'r dystiolaeth.
- 6.12 Os bydd oedi cyn i ganolfannau gyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol i sefydliadau dyfarnu, gallai fod oedi wrth brosesu'r apêl, a all olygu y bydd yn amhosibl bodloni terfynau amser darparwyr addysg uwch ar gyfer apelïadau â blaenoriaeth.
- 6.13 Mae'n hanfodol bod unigolyn cyswllt penodol yn y ganolfan y gall y sefydliad dyfarnu gysylltu ag ef os bydd angen rhagor o wybodaeth cyn y gellir bwrw ymlaen â'r apêl. Bydd hyn yn helpu i osgoi unrhyw oedi yn y broses.
- 6.14 Bydd gan bob sefydliad dyfarnu system ar gyfer cyflwyno apelïadau. Mae manylion am sut i gyflwyno apelïadau i'w gweld yn **Atodiad A**. Ymhlith y manylion y bydd angen ei chyflwyno i'r sefydliad dyfarnu pan fydd myfyrwr yn apelio mae:
- a) yr hyn y mae'r ganolfan wedi methu â'i wneud ym marn y myfyrwr, pam roedd hynny'n gyfystyr â methu â dilyn gweithdrefn y ganolfan, a pham roedd y methiant hwnnw'n bwysig wrth bennu Gradd Asesu'r Athro
 - b) ym mha ffordd y gwnaeth y sefydliad dyfarnu wall gweinyddol ym marn y myfyrwr, a pha wahaniaeth a wnaeth hynny wrth bennu Gradd Asesu'r Athro

¹ Os bydd yr ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad adolygiad y ganolfan o wall gweinyddol honedig gan y ganolfan, dylai'r ymgeisydd apelio ar y sail bod y ganolfan wedi methu â dilyn gweithdrefn yr adolygiad yn briodol neu'n gyson.

c) ym mha ffordd y cafodd barn academaidd ei harfer yn afresymol ym marn y myfyriwr:

- i wrth ddewis y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu Gradd Asesu'r Athro
- ii wrth bennu Gradd Asesu'r Athro yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddewiswyd.

Noder bod y gofynion ar gyfer pob rheswm dros apelio yn wahanol ac nad oes angen sail resymegol ychwanegol ar gyfer pob rheswm:

- **nid oes** angen cyflwyno esboniad gydag apeliadau a wneir ar sail gwiriad gweithdrefnol cyffredinol neu ar y sail bod barn academaidd wedi cael ei harfer yn afresymol wrth bennu'r radd o'r dystiolaeth.
- **mae** angen cyflwyno esboniad gydag apeliadau a wneir ar sail gwiriad gweithdrefnol mewn perthynas ag amgylchiadau lliniarol neu drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol
- **mae** angen cyflwyno esboniad o bryderon y myfyriwr gydag apeliadau a wneir ar sail arfer barn academaidd yn afresymol wrth ddewis dystiolaeth i'w defnyddio i bennu'r radd.
- **mae** angen cyflwyno esboniad o'r gwall canfyddedig gydag apeliadau a wneir ar sail gwall gweinyddol.

ch) datganiad clir y gall graddau gael eu codi, aros yr un peth neu gael eu gostwng o ganlyniad i apêl, gyda lle i gadarnhau bod y myfyriwr yn deall hyn ac yn cydsynio i'r canlyniadau hynny

d) dystiolaeth ategol berthnasol (gall fod yn briodol i ganolfannau lanlwytho'r rhestr wirio o dystiolaeth sydd yn **Atodiad C**, ynghyd â'u dystiolaeth, os byddant yn credu y byddai hynny'n ddefnyddiol i'r sefydliad dyfarnu)

dd) unigolyn cyswllt penodol yn y ganolfan a all ymdrin ag unrhyw ymholiadau gan y sefydliad dyfarnu.

6.15 Pan fydd y ganolfan wedi cyflwyno'r apêl i'r sefydliad dyfarnu, dylai gadarnhau wrth y myfyriwr ei bod wedi gwneud hynny.

6.16 Pan ddaw cais am apêl i law, bydd y sefydliad dyfarnu yn penderfynu p'un a fydd yn cael ei dderbyn i'w werthuso ai peidio.

6.17 Mae'r penderfyniad a ddylid derbyn y cais am apêl yn seiliedig ar:

- a) a yw'r rhesymau dros apelio o fewn cylch gwaith y broses apelio (lle bo angen sail resymegol)
- b) p'un a gwblhawyd adolygiad canolfannau ai peidio
- c) amseru'r cais mewn perthynas â'r terfynau amser a gyhoeddwyd ar gyfer gwneud cais am apeliadau
- ch) a yw'r myfyriwr wedi cadarnhau ei fod yn cydsynio i'w radd gael ei chodi neu ei gostwng, neu aros yr un peth.

6.18 Os na dderbynnir cais am apêl, bydd y rheswm/rhesymau dros hyn yn cael eu rhoi.

6.19 Gall myfyriwr wneud cais am apêl ond penderfynu wedyn yr hoffai ei dynnu'n ôl. Bydd sefydliadau dyfarnu yn derbyn ceisiadau i dynnu apeliadau yn ôl ar yr amod nad oes darganfyddiad wedi cael ei wneud. Ni ellir tynnu cais am apêl i sefydliad dyfarnu yn ôl os oes darganfyddiad wedi cael ei wneud.

Beth fydd yn digwydd yn ystod yr apêl i sefydliad dyfarnu?

- 6.20 Mae dogfen Ofqual, *Guidance for the General Qualifications Alternative Awarding Framework*, yn nodi nad ymchwiliad gan y sefydliad dyfarnu yw apêl, ond gwerthusiad o ganlyniad y dysgwr yng ngoleuni'r rhesymau dros apelio. Mae'r ddogfen hon ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/general-qualifications-alternative-awarding-framework>
- 6.21 Wrth ystyried apêl, bydd y sefydliad dyfarnu yn ystyried y ffactorau a godwyd yn yr apêl ac yn rhoi'r pwys y mae'n credu sy'n briodol iddynt. Er enghraifft, fel y mae canllawiau Ofqual yn esbonio ym mharagraff 8, *'whether a Learner raised any objection to the inclusion or exclusion of particular evidence before the determination of the TAG is a factor which an awarding organisation may take into account, but it should not be determinative. Similarly, a failure by a Centre, prior to the determination of the TAG, to disclose to the Learner what evidence they would rely on might or might not be a relevant factor'*.
- 6.22 Mae'r canllawiau yn esbonio bod apêl weithdrefnol yn gofyn i'r sefydliad dyfarnu *'consider whether there is sufficiently persuasive evidence that the Centre deviated from its own procedures in the way(s) identified by the Learner in the grounds of appeal. The determination of such an appeal does not require a comprehensive or step-by-step evaluation of the merits of the procedure set by the Centre. The appropriateness of the Centre's procedure will have been checked by the awarding organisation as part of its external quality assurance. The question on appeal is whether the Centre followed that procedure properly and consistently in arriving at the Learner's TAG'*.
- 6.23 Gan fod gweithdrefnau'n cael eu gwerthuso yn adolygiad y ganolfan, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o wallau gweithdrefnol a gwallau gweinyddol gan y ganolfan eisoes wedi cael eu cywiro gan y ganolfan cyn i'r apêl gael ei chyflwyno.
- 6.24 Os gwneir apêl ar sail arfer barn academaidd yn afresymol (naill ai wrth ddewis tystiolaeth ar gyfer pennu'r radd a/neu bennu'r radd honno o'r dystiolaeth), bydd y sefydliad dyfarnu yn ystyried canllawiau Ofqual sy'n nodi mai'r man cychwyn yw Gradd Asesu'r Athro ei hun ac nid unrhyw radd arall a gyflwynir fel rhan o'r apêl. Felly, ffocws unrhyw apêl fydd a oedd Gradd Asesu'r Athro yn afresymol, yn hytrach nag y byddai unrhyw radd neu farc arall wedi bod yn rhesymol.
- 6.25 Oherwydd natur gyfannol Gradd Asesu Athro, bydd adolygwr annibynnol y sefydliad dyfarnu yn gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio dull cyfannol tebyg. Nid adolygu'r ffordd y cafodd asesiadau unigol eu marcio yw diben yr adolygiad annibynnol.
- 6.26 Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried a oedd y penderfyniad gwreiddiol ynghylch Gradd Asesu'r Athro yn rhesymol. Ni fydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried a fyddai wedi rhoi gradd wahanol nac a fyddai hefyd wedi bod yn rhesymol rhoi gradd arall.
- Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried a oedd y penderfyniad gwreiddiol ynghylch Gradd Asesu'r Athro yn rhesymol yn ei rinwedd ei hun, ac nid a fyddai unrhyw gynnig arall ar gyfer Gradd Asesu'r Athro neu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y myfyriwr yn ffordd fwy rhesymol o arfer barn academaidd. Gall fod gwahaniaeth barn ynghylch y radd asesu heb i farn academaidd fod wedi cael ei harfer yn afresymol. Dim ond os bydd yn amlwg bod Gradd Asesu'r Athro yn anghywir y bydd yr adolygwr yn dod i'r casgliad bod barn academaidd wedi cael ei harfer yn afresymol – hynny yw os nad oedd sail briodol bosibl dros roi'r radd a roddwyd.
- 6.27 Os bydd yr apêl yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddewiswyd, caiff y penderfyniad academaidd ei ystyried yng nghydestun gweithdrefn y ganolfan. Os bydd hyn yn gosod man cychwyn a fydd yn golygu y caiff yr un dystiolaeth ei defnyddio ar gyfer pob myfyriwr mewn carfan, y cwestiwn perthnasol, fel arfer, fydd a oedd penderfyniad academaidd i fynd yn groes i'r man cychwyn mewn perthynas â'r myfyriwr dan sylw, neu i beidio â gwneud hynny, yn afresymol.

- 6.28 Yn dibynnu ar y rhesymau a gyflwynwyd gan y myfyriwr (gwall gweithdrefnol/gweinyddol, arfer barn academiaidd yn afresymol, neu'r ddau), gall y sefydliad dyfarnu drosglwyddo'r apêl i aelod o'i staff a/neu i adolygwr annibynnol i'w gwerthuso.
- 6.29 Bydd adolygwr annibynnol yn arbenigwr pwnc a benodwyd gan y sefydliad dyfarnu ac a hyfforddwyd i werthuso apeladau. Ni fydd gan yr adolygwr annibynnol ddim buddiant personol yn y penderfyniad sy'n destun apêl, a bydd yn gwerthuso unrhyw apêl ar y sail bod y ganolfan wedi arfer barn academiaidd yn afresymol.
- 6.30 Os bydd y myfyriwr yn gwneud cais am apêl am fwy nag un rheswm (e.e. gofynnir i'r sefydliad dyfarnu adolygu'r gweithdrefnau a'r ffordd y cafodd barn academiaidd ei harfer), bydd y broses apelio'n debygol o gymryd mwy o amser. Gallai hyn fod yn ystyriaeth bwysig i fyfyrwyr y mae angen iddynt gael gwybod canlyniad eu hapêl ar frys.
- 6.31 Ar gyfer apeladau am fwy nag un rheswm, mae'n bosibl y gallai un rheswm (e.e. gwall gweithdrefnol) ganfod gwall sy'n effeithio ar y Radd Asesu Athro a roddwyd. Wedyn, gallai canlyniad ail reswm dros apêl fod yn drech na'r canlyniad hwnnw (e.e. afresymoldeb Gradd Asesu'r Athro). Felly, dim ond pan fydd yr holl resymau a gyflwynwyd wedi cael eu gwerthuso y caiff canlyniad apêl ei gyhoeddi. Mae'n bosibl y gallai'r sefydliad dyfarnu ganfod nad oedd y radd a roddwyd yn gywir am resymau gwahanol i'r rhesymau a roddwyd dros apelio. Os felly, bydd y sefydliad dyfarnu yn cymryd y camau priodol i gywiro'r radd.

Cyhoeddi'r canlyniad

- 6.32 O ganlyniad i'r apêl, bydd yr achos naill ai'n cael ei wrthod (ddim yn cael ei ganiatáu) neu ei gadarnhau (ei ganiatáu) yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Ni fydd y ffaith bod apêl wedi cael ei chadarnhau (ei chaniatáu) o reidrwydd yn golygu y caiff gradd y myfyriwr ei newid.

- 6.33 Os bydd y sefydliad dyfarnu:

- yn canfod gwall gweithdrefnol neu'n
- canfod y dylai tystiolaeth amgen fod wedi cael ei chynnwys yn yr amrywiaeth o dystiolaeth

ac y gall hyn fod wedi effeithio ar Radd Asesu'r Athro, bydd yn rhannu'r canfyddiadau hyn â'r ganolfan ac yn ei chyfarwyddo i adolygu Gradd Asesu'r Athro.

Wedyn, bydd yn rhaid i'r ganolfan roi gwybod i'r sefydliad dyfarnu os bydd yn credu y dylid newid y radd. Mae'n bosibl y bydd sefydliad dyfarnu yn newid y radd.

Caiff apeladau a wneir ar sail gwall gweithdrefnol eu gwerthuso gan aelod o staff neu adolygwr annibynnol a benodwyd gan y sefydliad dyfarnu.

- 6.34 Yn dilyn gwiriadau sicrhau ansawdd terfynol, bydd y sefydliad dyfarnu yn newid y radd, os bydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, ac yn rhannu canlyniad yr apêl, ynghyd â'r rhesymau dros ei benderfyniad, â'r ganolfan.
- 6.35 Os bydd y sefydliad dyfarnu yn canfod bod barn academiaidd wedi cael ei harfer yn afresymol, bydd yr adolygwr annibynnol yn pennu'r radd amgen. Wedyn, bydd y sefydliad dyfarnu yn rhannu'r radd ddiwygiedig a chanlyniad yr apêl, ynghyd â'r rhesymau, â'r ganolfan.
- 6.36 Rhaid i'r ganolfan rannu canlyniad yr apêl i'r sefydliad dyfarnu, a chamau nesaf y broses lle bo hynny'n briodol, â'r myfyriwr yn brydlon.

7. Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau

Ar ôl i broses apelio'r sefydliad dyfarnu ddod i ben, mae'n bosibl y gall myfyriwr sy'n dal i bryderu bod ei radd yn anghywir wneud cais i'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau am adolygiad gweithdrefnol gan y rheoleiddiwr perthnasol. Mae prosesau Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau ar gael ar gyfer Ofqual (Lloegr) a Chymwysterau Cymru. Bydd y rheoleiddwyr yn rhoi rhagor o fanylion am y prosesau hyn ar gyfer haf 2021 cyn diwrnodau'r canlyniadau yr haf hwn.

8. Apeliadau ar gyfer Ymgeiswyr Preifat

Mae'r broses apelio yn berthnasol i Ymgeiswyr Preifat yn yr un ffordd â phob myfyriwr arall. Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y gall pob ymgeisydd, gan gynnwys Ymgeiswyr Preifat, ddefnyddio'r broses apelio.

DS Gall Ymgeiswyr Preifat gynnwys myfyrwyr sy'n ailsefyll neu fyfyrwyr sydd â thystiolaeth o ddarparwyr addysg sefydledig eraill.

Cyn diwrnod y canlyniadau

8.1 Os bydd canolfan wedi derbyn cofrestrïadau gan Ymgeiswyr Preifat, rhaid iddi sicrhau ei bod wedi dilyn canllawiau JCQ ar asesu Ymgeiswyr Preifat.

Yn benodol:

- a) Os bydd canolfan wedi derbyn tystiolaeth gan drydydd parti, bydd yn rhaid iddi sicrhau bod y trydydd parti wedi cyflwyno copiâu o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd a bydd yn rhaid i'r ganolfan eu cadw rhag ofn y bydd eu hangen yn ystod y broses apelio
- b) Os mai'r trydydd parti fydd hefyd wedi pennu Gradd Asesu'r Athro ar gyfer y myfyriwr, bydd yn rhaid i'r ganolfan hefyd sicrhau bod y trydydd parti wedi cyflwyno'r holl ddogfennaeth ategol angenrheidiol, megis cofnod asesu wedi'i gwblhau ar gyfer yr ymgeisydd
- c) Rhaid i'r ganolfan hefyd sicrhau bod y trydydd parti wedi rhoi'r sicrwydd angenrheidiol a nodir yng nghanllawiau JCQ, gan gynnwys cadarnhau ei fod yn fodlon cydweithredu â'r broses apelio
- ch) Rhaid i'r ganolfan ddilyn ei phrosesau sicrhau ansawdd mewnol arferol cyhyd ag y bo modd ar gyfer graddau Ymgeiswyr Preifat, ond ni fydd rhai agweddau ar y broses sicrhau ansawdd (er enghraifft, adolygiad o ddata hanesyddol y ganolfan) yn berthnasol.

Rhannu gwybodaeth ag Ymgeiswyr Preifat

8.2 Ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, os bydd Ymgeisydd Preifat yn gofyn am wybodaeth am ei radd, rhaid i'r ganolfan roi'r un wybodaeth ag y byddai'n ei rhoi i bob myfyriwr arall. Os bydd rhywfaint o'r wybodaeth hon gan drydydd parti, bydd yn rhaid i'r ganolfan gysylltu ag ef er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r wybodaeth hon. Gweler **adran 3** am fanylion y wybodaeth y bydd angen i ganolfannau ei rhannu.

Cynnal adolygiad canolfan ar gyfer Ymgeiswyr Preifat

8.3 Os bydd Ymgeisydd Preifat yn gwneud cais am adolygiad canolfan, cyfrifoldeb y ganolfan a gofrestrodd yr ymgeisydd fydd cynnal yr adolygiad a chysylltu â thrydydd partion sydd wedi bod yn rhan o'r broses o'i asesu lle bo angen. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod y broses gywir wedi cael ei dilyn ac na wnaed dim gwallau sydd wedi effeithio ar y radd. Cyn cynnal adolygiad canolfan, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol y gall ei radd gael ei chodi neu ei gostwng neu aros yr un peth o ganlyniad i'r adolygiad. Gweler **adran 5** am ragor o wybodaeth am broses adolygiad canolfan.

Apeliadau i sefydliadau dyfarnu

8.4 Yn dilyn adolygiad canolfan, os bydd Ymgeisydd Preifat yn gwneud cais am apêl i sefydliad dyfarnu, bydd yn rhaid i'r ganolfan gyflwyno'r cais hwn i'r sefydliad dyfarnu ar ei ran, fel y byddai'n ei wneud ar gyfer unrhyw fyfyrwr arall. Cyn cyflwyno'r cais am apêl, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol y gall ei radd gael ei chodi neu ei gostwng neu aros yr un peth o ganlyniad i'r apêl i sefydliad dyfarnu. Wrth gyflwyno'r apêl, rhaid i'r ganolfan sicrhau y caiff unrhyw ddogfennaeth ategol ychwanegol a gyflwynir gan drydydd partion sy'n rhan o'r broses apelio ei chynnwys. Gweler **adran 6** am ragor o wybodaeth am broses yr apêl i'r sefydliad dyfarnu.

9. Dyddiadau Allweddol – ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau

Dyddiadau allweddol ar gyfer apeliadau â blaenoriaeth*

10 Awst i 16 Awst 2021	Cyfnod i fyfyrwyr wneud cais am adolygiad canolfan
10 Awst i 20 Awst 2021	Canolfannau'n cynnal adolygiadau canolfan
10 Awst i 23 Awst 2021	Canolfannau'n cyflwyno ceisiadau am apeliadau i sefydliadau dyfarnu

*Mae apêl flaenoriaethol wedi'i bwriadu ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall, yn unig.

Dyddiadau allweddol ar gyfer apeliadau heb flaenoriaeth

O ddiwrnod y canlyniadau tan 3 Medi 2021	Cyfnod i fyfyrwyr wneud cais am adolygiad canolfan
O ddiwrnod y canlyniadau tan 10 Medi 2021	Canolfannau'n cynnal adolygiadau canolfan
O ddiwrnod y canlyniadau tan 17 Medi 2021	Canolfannau'n cyflwyno ceisiadau am apeliadau i sefydliadau dyfarnu

Cyhoeddi canlyniadau TAG UG a Safon Uwch – 10 Awst 2021

Cyhoeddi canlyniadau TGAU – 12 Awst 2021

10. Terfynau amser

- 10.1 Bydd sefydliadau dyfarnu yn ceisio cwblhau apeliadau cyn gynted â phosibl ac yn gwneud ymdrechion arbennig ar gyfer yr apeliadau hynny y nodwyd eu bod yn apeliadau â blaenoriaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall.

Bydd y sefydliadau dyfarnu'n ceisio cwblhau Cam Dau o'r broses apelio (cam yr apêl i'r sefydliad dyfarnu) o fewn 42 diwrnod calendr ar ôl i'r cais ddod i law.

Oherwydd natur apeliadau eleni, gall fod angen i sefydliadau dyfarnu gael mewnbwn ychwanegol gan ganolfannau, ac efallai na fydd yn bosibl cyrraedd y targed hwn bob amser.

- 10.2 Terfynau amser a awgrymir er mwyn galluogi canolfannau i gyflwyno ceisiadau am apeliadau i'r sefydliad dyfarnu erbyn y terfynau amser a nodir yn **adran 9** yw'r terfynau amser ar gyfer Cam Un o'r broses apelio (adolygiad y ganolfan). Gall canolfannau bennu eu terfynau amser eu hunain ar gyfer adolygiadau canolfan. Bydd ceisiadau am apeliadau â blaenoriaeth na chânt eu cyflwyno i'r sefydliad dyfarnu erbyn 23 Awst 2021 yn dal i gael eu blaenoriaethu a bydd sefydliad dyfarnu yn ceisio eu prosesu mor brydlon â phosibl. Fodd bynnag, ceir risg na chânt eu cwblhau mewn pryd ar gyfer y myfyrwyr hynny y mae eu lle mewn sefydliad addysg yn ddibynnol ar ganlyniad yr apêl.

Atodiad A – Manylion cyswilt sefydliadau dyfarnu

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y broses apelio at Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y sefydliad dyfarnu perthnasol.

AQA

Dylai canolfannau wneud cais am newid i radd yn sgil adolygiad canolfan, neu am apêl, gan ddefnyddio <https://aqasummer21.powerappsportals.com/>

City & Guilds

Mae gwybodaeth am sut i apelio ar gael yma <https://www.cityandguilds.com/covid-19/appeals-and-results>

Dylid anfon ymholiadau i policy@cityandguilds.com

OCR

Dylai canolfannau wneud cais am newid i radd yn sgil adolygiad canolfan, neu am apêl, gan ddefnyddio OCR Interchange – <https://interchange.ocr.org.uk/>

Pearson

Dylai canolfannau wneud cais i apelio a chywiro gwallau ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi gan ddefnyddio Edexcel Online – <https://edexcelonline.pearson.com/>

Gall canolfannau gywiro Gradd Asesu Athro cyn 18 Gorffennaf 2021 gan ddefnyddio'r porth Graddau Asesu Athrawon yn Edexcel Online – <https://edexcelonline.pearson.com/>

Gall canolfannau gywiro Gradd Asesu Athro cyn 18 Gorffennaf 2021 gan ddefnyddio'r porth Graddau Asesu Athrawon yn Edexcel Online – https://edexcelonline.pearson.com

CBAC

Dylai canolfannau wneud cais i apelio gan ddefnyddio system ddiogel CBAC – <https://portal-appeals.wjec.co.uk>



Gwybodaeth bwysig i fyfyrwyr

Beth all ddigwydd i'ch gradd yn ystod adolygiad canolfan a'r broses apelio?

Os byddwch yn gwneud cais am adolygiad canolfan neu apêl i sefydliad dyfarnu, bydd tri chanlyniad posibl:

- Bydd eich gradd wreiddiol yn cael ei **gostwng**, felly bydd eich gradd derfynol yn is na'r radd wreiddiol a gawsoch.
- Bydd eich gradd wreiddiol yn cael ei **chadarnhau**, felly ni fydd newid i'ch gradd.
- Bydd eich gradd wreiddiol yn cael ei **chodi**, felly bydd eich gradd derfynol yn uwch na'r radd wreiddiol a gawsoch.

Pan fydd darganfyddiad wedi cael ei wneud, ni fyddwch yn gallu tynnu eich cais am adolygiad canolfan neu apêl yn ôl. Os bydd eich gradd wedi cael ei gostwng, ni fyddwch yn gallu troi'n ôl at y radd wreiddiol a gawsoch ar ddiwrnod y canlyniadau.

Beth fydd yn cael ei wirio yn ystod adolygiad canolfan?

Gallwch ofyn i'r ganolfan edrych i weld a yw wedi gwneud **gwall gweithdrefnol**, **gwall gweinyddol**, neu'r ddau. Ystyr gwall gweithdrefnol yw methiant i ddilyn y broses sydd wedi'i nodi ym mholisi'r ganolfan. Ystyr gwall gweinyddol yw gwall wrth gofnodi eich gradd neu gyflwyno eich gradd i'ch sefydliad dyfarnu.

Rhaid i chi wneud cais am adolygiad canolfan cyn y gallwch wneud cais am apêl i sefydliad dyfarnu. Y rheswm dros hyn yw er mwyn i'r sefydliad dyfarnu fod yn sicr mai'r radd roedd y ganolfan wedi bwriadu ei rhoi i chi a gawsoch.

Beth fydd yn cael ei wirio yn ystod apêl i sefydliad dyfarnu?

Gallwch ofyn i'r sefydliad dyfarnu edrych i weld a yw'r ganolfan wedi gwneud **gwall gweithdrefnol** neu **wall gweinyddol**, neu a yw'r sefydliad dyfarnu ei hun wedi gwneud **gwall gweinyddol**. Gallwch hefyd ofyn i'r sefydliad dyfarnu edrych i weld a oedd **barn academiaidd** y ganolfan yn afresymol, naill ai o ran dewis tystiolaeth neu wrth benderfynu ar eich gradd.

Erbyn pryd y bydd angen i mi gyflwyno fy nghais?

Dylech gyflwyno eich cais am adolygiad canolfan erbyn **16 Awst 2021 ar gyfer apêl flaenoriaethol**, neu erbyn **3 Medi 2021 ar gyfer apeliadau heb flaenoriaeth**.

Ar ôl i chi gael canlyniad eich adolygiad canolfan, os byddwch yn dymuno gwneud cais am apêl i sefydliad dyfarnu, dylech wneud hynny cyn gynted â phosibl. Bydd eich ysgol neu goleg yn gwneud hyn ar eich rhan. Dylai ceisiadau am apêl flaenoriaethol gael eu cyflwyno erbyn **23 Awst 2021** a dylai ceisiadau am apeliadau heb flaenoriaeth gael eu cyflwyno erbyn **17 Medi 2021**. Caiff apeliadau blaenoriaethol na chânt eu cyflwyno i'r sefydliad dyfarnu erbyn 23 Awst 2021 eu blaenoriaethu o hyd, ond mae'n bosibl na chânt eu cwblhau mewn pryd ar gyfer y myfyrwyr hynny y mae eu lle mewn sefydliad addysg uwch yn ddibynnol ar ganlyniad yr apêl.

Beth yw apêl flaenoriaethol?

Mae apêl flaenoriaethol wedi'i bwriadu ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn (h.y. y cynnig y gwnaethant ei dderbyn fel dewis cyntaf), ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall, yn unig. Dylech roi gwybod i'ch darparwr addysg uwch arfaethedig eich bod wedi gwneud cais am adolygiad canolfan neu apêl.

Beth yw eich rhif adnabod UCAS personol a pham mae angen hwn?

Eich rhif adnabod UCAS personol yw'r cod 10 digid sydd wedi'i gynnwys ym mhob gohebiaeth oddi wrth UCAS. Mae angen hwn er mwyn cadarnhau bod lle myfyriwr yn ddibynnol ar ganlyniad yr apêl.

Cam un – adolygiad canolfan

A. Cais gan y myfyriwr

Rhaid i'r myfyriwr lenwi'r adran hon. Rhaid i gais am adolygiad canolfan gael ei gyflwyno i'r ganolfan, nid i'r sefydliad dyfarnu. Rhaid i adolygiad canolfan gael ei gynnal cyn apêl i'r sefydliad dyfarnu. Y rheswm dros hyn yw er mwyn i'r sefydliad dyfarnu fod yn sicr mai'r radd roedd y ganolfan wedi bwriadu ei rhoi i chi a gawsoch.

Enw'r Ganolfan		Rhif y Ganolfan	
----------------	--	-----------------	--

Enw'r Myfyriwr		Rhif yr Ymgeisydd	
----------------	--	-------------------	--

Teitl y cymhwyster, e.e. AQA TGAU Saesneg Iaith			
Gradd a Asesir gan yr Athro a roddwyd			
Ai apêl flaenoriaethol yw hon? Mae apêl flaenoriaethol wedi'i bwriadu ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am le mewn sefydliad addysg uwch na chawsant le yn eu dewis cadarn, ac sydd am apelio yn erbyn canlyniad cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster Lefel 3 arall, yn unig.	<input type="checkbox"/> Ie <input type="checkbox"/> Na	Os 'Ie', rhowch eich rhif adnabod UCAS personol, e.e. 123-456-7890	

Rhesymau dros wneud cais am adolygiad canolfan

Ticiwch yr opsiwn/opsiynau sy'n berthnasol i'ch cais. Os nad ydych yn credu bod y naill na'r llall yn berthnasol, bydd eich canolfan yn cynnal adolygiad o hyd er mwyn canfod unrhyw wallau gweinyddol a gweithdrefnol er mwyn i'r sefydliad dyfarnu fod yn sicr mai'r radd roedd y ganolfan wedi bwriadu ei rhoi i chi a gawsoch.

Gwall Gweinyddol gan y ganolfan e.e. cofnodwyd y radd/marc anghywir yn erbyn darn o dystiolaeth	<input type="checkbox"/>	Gwall Gweithdrefnol gan y ganolfan e.e. ni wnaed addasiad rhesymol / trefniant mynediad ar gyfer myfyrwyr sy'n gymwys i gael hynny	<input type="checkbox"/>
--	--------------------------	---	--------------------------

Tystiolaeth ategol

Rhowch esboniad byr o'r hyn y credwch a aeth o'i le a sut yr effeithiodd hyn ar eich gradd yn eich barn chi.
Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

Cydnabyddiaeth

Rwy'n cadarnhau fy mod yn gwneud cais am adolygiad canolfan ar gyfer y cymhwyster a enwir uchod a'm bod wedi darllen a deall y wybodaeth yn yr adran 'Gwybodaeth bwysig i fyfyrwyr' uchod. Wrth gyflwyno'r cais hwn am adolygiad, rwy'n ymwybodol o'r canlynol:

- Gall canlyniad yr adolygiad olygu y bydd fy ngradd yn aros **yr un peth**, yn cael ei **gostwng** neu'n cael ei **chodi**
- Dim ond ar ôl gwneud cais am adolygiad canolfan (Cam Un), ac ar ôl i'r adolygiad hwnnw gael ei gynnal, y gellir gwneud cais am y cam nesaf (Cam Dau, yr apêl i sefydliad dyfarnu).

Enw'r Myfyriwr	Llofnod y Myfyriwr	Dyddiad
----------------	--------------------	---------

B. Canlyniad adolygiad y ganolfan

Dylai'r adran hon gael ei llenwi gan y ganolfan a'i rhannu â'r myfyriwr fel cofnod o ganlyniad adolygiad y ganolfan.

Canlyniad Adolygiad y Ganolfan

Ticiwch ganlyniad yr adolygiad ac yna cofnodwch y radd wreiddiol a'r radd ddiwygiedig os yw hynny'n berthnasol.

Wedi'i chadarnhau	<input type="checkbox"/>	Heb ei chadarnhau	<input type="checkbox"/>	Wedi'i chadarnhau'n rhannol	<input type="checkbox"/>
Gradd Asesu Wreiddiol yr Athro			Gradd Asesu Ddiwygiedig yr Athro os yw hynny'n berthnasol		

Y wybodaeth y gwnaeth y ganolfan ei hystyried

Rhowch esboniad byr o'r dystiolaeth rydych wedi bwrw golwg drosti. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

--

Sail resymegol dros ganlyniad adolygiad y ganolfan

Amlinellwch ddarganfyddiadau'r ganolfan o'r adolygiad, e.e. gwall gweithdrefnol neu wall gweinyddol, a manylion y gwall os yw hynny'n berthnasol. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

--

Awdurdodiad a dyddiadau'r camau nesaf

Llenwch y blychau fel y bo'n briodol. Rhaid llenwi blychau 1 a 2 ym mhob achos. Dim ond wrth wneud cais i newid gradd y bydd angen llenwi blychau 3 a 4.

1. Y dyddiad y cafodd y penderfyniad a'r sail resymegol eu rhoi i'r myfyriwr		2. Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r myfyriwr sut i fynd ymlaen i gam 2 (apêl i sefydliad dyfarnu)	
3. Cadarnhad bod uwch arweinydd wedi awdurdodi unrhyw newid i radd		4. Y dyddiad y cafodd y newid gradd hwnnw ei gyflwyno i'r sefydliad dyfarnu	

Cam dau – apêl i sefydliad dyfarnu

Rhaid i'r myfyriwr lenwi'r adran hon. Rhaid i gais am apêl i sefydliad dyfarnu gael ei gyflwyno i'r ganolfan a bydd y canolfan yna'n ei gyflwyno i'r sefydliad dyfarnu.

Rhesymau dros apelio

Ticiwch eich rhesymau dros apelio

1. Gwall gweinyddol gan y sefydliad dyfarnu

2. Problem weithdrefnol yn y ganolfan

a. Gwall Gweithdrefnol

b. Problemau o ran trefniadau mynediad / addasiadau rhesymol a/neu amgylchiadau lliniarol

3. Arfer barn academiaidd yn afresymol

a. Dewis tystiolaeth

b. Pennu Gradd Asesu'r Athro

Tystiolaeth i ategu apêl

Rhowch esboniad byr o'r hyn y credwch a aeth o'i le a sut yr effeithiodd hyn ar eich gradd yn eich barn chi, lle bo hynny'n berthnasol i'r rheswm a ddewiswyd gennych dros apelio. Mewn rhai achosion, rhaid i chi roi rheswm clir ond nid oes rhaid iddo fod yn hir.

1. Gwall gweinyddol gan y sefydliad dyfarnu

Rhaid i chi roi esboniad clir. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

2 (a) Gwall Gweithdrefnol

Pan fydd canolfan wedi gwneud gwall gweithdrefnol na chafodd ei gywiro ar Gam Un, neu pan na chynhaliodd y ganolfan ei hadolygiad yn briodol ac yn gyson. Os oes modd, ychwanegwch esboniad pellach isod neu, fel arall, cyfeiriwch at y wybodaeth rydych eisoes wedi'i rhoi uchod. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

2 (b) Problemau o ran trefniadau mynediad / addasiadau rhesymol a/neu amgylchiadau lliniarol

Rhaid i chi roi esboniad clir o'r hyn y credwch a aeth o'i le a sut yr effeithiodd hyn ar eich gradd yn eich barn chi. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

3 (a) Dewis tystiolaeth

Rhaid i chi roi esboniad clir o'r hyn y credwch a aeth o'i le a sut yr effeithiodd hyn ar eich gradd yn eich barn chi. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

3 (b) Pennu Gradd Asesu'r Athro

Gallwch roi esboniad byr o'r rheswm dros eich apêl os dymunwch. Cewch ddefnyddio hyd at 5,000 o nodau.

Cydnabyddiaeth

Rwy'n cadarnhau fy mod yn gwneud cais am apêl ar gyfer y cymhwyster a enwir uchod a'm bod wedi darllen a deall y wybodaeth yn yr adran 'Gwybodaeth bwysig i fyfyrwr' uchod.

Rwy'n ymwybodol o'r canlynol:

- Gall canlyniad yr apêl olygu y bydd fy ngradd yn aros yr un peth, yn cael ei gostwng neu'n cael ei chodi
- Rwy'n deall na fydd cyfle pellach i apelio i'r sefydliad dyfarnu ac mai cysylltu â'r rheoleiddiwr fyddai'r cam nesaf. Bydd y sefydliad dyfarnu yn cynnwys y camau priodol nesaf, lle bo hynny'n briodol, yn ei lythyr sy'n nodi canlyniad yr apêl, y byddwch yn ei gael gan eich ysgol/coleg.

Enw'r Myfyriwr

Llofnod y Myfyriwr

Dyddiad

Dyma restr wirio ar gyfer y dystiolaeth y bydd yn ofynnol i ysgolion a cholegau ei chyflwyno i'r Sefydliad Dyfarnu os bydd myfyriwr yn apelio i'r Sefydliad Dyfarnu am resymau gweithdrefnol neu am resymau'n ymwneud â barn academiaidd. Efallai y bydd y dystiolaeth hon yn ddefnyddiol i ganolfannau wrth gynnal adolygiadau canolfan hefyd.

Rydym yn argymhell y dylid gofyn i athrawon pwnc a Phenaethiaid Adran edrych dros y rhestr wirio ar ôl i raddau asesu'r athrawon gael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn gyflawn ac yn gywir, a'i bod yn hawdd i'r staff a fydd yn cynnal adolygiadau canolfan ac yn cyflwyno apeliadau gael gafael arni. Gall fod yn ddefnyddiol nodi enw a lleoliad dogfennaeth berthnasol fel bod modd cael gafael arni'n hawdd os bydd angen yn ystod adolygiad canolfan a'r broses apelio.

Rydym hefyd yn argymhell y dylech gyflwyno'r rhestr wirio wedi'i chwblhau, ynghyd â'r holl dystiolaeth ofynnol, wrth gyflwyno apêl i'r Sefydliad Dyfarnu. Gall hyn olygu na fydd angen i'r Sefydliad Dyfarnu gysylltu â staff y ganolfan i wneud ymholiadau am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Lefel Cymhwyster:

Pwnc:

	Cofnod asesu'r garfan (neu ddogfennaeth gyfatebol y ganolfan) gan gynnwys y canlynol:	<i>Os nad yw'r wybodaeth yn y cofnod asesu, nodwch ym mha ddogfen y mae'r wybodaeth. Bydd angen ei chyflwyno i'r Sefydliad Dyfarnu os bydd apêl.</i>	<i>Nodiadau esboniadol</i>
<input type="checkbox"/> 1	Rolau'r ddau aelod o staff a wiriodd ac a gadarnhaodd y graddau ar gyfer y pwnc hwn.		
<input type="checkbox"/> 2	Y dystiolaeth a ddewiswyd ar gyfer y garfan ac esboniad o'r ffordd y cafodd y dystiolaeth ei defnyddio wrth bennu'r graddau.		<i>Dylai'r esboniad fod yn ddigonol i alluogi'r Sefydliad Dyfarnu i ddeall sut y caiff graddau eu pennu ar lefel carfan. Dylai nodi, er enghraifft, a roddwyd mwy o bwys ar un asesiad neu fwy, a sut y cafodd yr amcanion asesu eu cyflawni.</i>
<input type="checkbox"/> 3	Manylion amrywiadau unigol yn y dystiolaeth a ddewiswyd ar gyfer myfyrwyr yn y garfan a sail resymegol dros bob amrywiad.		<i>Dylid nodi'r holl achosion lle mae'r dystiolaeth a ddewiswyd ar gyfer myfyriwr unigol yn wahanol i'r hyn a ddewiswyd ar gyfer y garfan, gan gynnwys amrywiadau a oedd yn ofynnol o ganlyniad i drefniadau mynediad, amgylchiadau lliniarol, tarfu ar ddysgu ac addysgu, pryderon am ddilysrwydd neu am fod y myfyriwr yn ymgeisydd preifat.</i>
<input type="checkbox"/> 4	Cadarnhad o unrhyw amgylchiadau lliniarol a ystyriwyd ar gyfer myfyrwyr unigol, ac esboniad o'r ffordd y cawsant eu hystyried.		

(parhad)

(parhad)

<input type="checkbox"/> 5	Cadarnhad o unrhyw drefniadau mynediad neu addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt ar gyfer myfyrwyr unigol, ac esboniad o'r ffordd y cafodd unrhyw fethiant i wneud trefniadau mynediad neu addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt ei ystyried.		
	Dogfennaeth ychwanegol	<i>Nodwch pa ddogfennaeth sydd ar gael a'i lleoliad.</i>	<i>Wrth gyflwyno apêl i'r sefydliad dyfarnu, dim ond ar gyfer y myfyriwr sydd wedi gwneud cais am yr apêl y bydd angen i chi lanlwytho'r ddogfennaeth hon.</i>
<input type="checkbox"/> 6	Unrhyw gofnodion ychwanegol sydd ar gael mewn perthynas â'r dystiolaeth a ddewiswyd ar gyfer ymgeiswyr preifat a oedd yn rhan o'r garfan.		<i>Er enghraifft, unrhyw ddogfennaeth ategol a gyflwynwyd gan drydydd parti a oedd yn rhan o'r penderfyniad ynghylch graddio.</i>
<input type="checkbox"/> 7	Unrhyw ohebiaeth neu gofnodion o drafodaethau â myfyrwyr neu rieni sydd ar gael mewn perthynas â'r broses raddio.		<i>Nid oes disgwyl i athrawon ddogfennu pob sgwrs am bryderon myfyrwyr neu rieni, ond dylid cyflwyno'r cofnodion sydd ar gael i'r Sefydliad Dyfarnu os bydd apêl.</i>
<input type="checkbox"/> 8	Copi o wybodaeth a rannwyd â'r myfyriwr am y dystiolaeth a ddewiswyd, a'r marciau neu'r graddau a roddwyd ar gyfer pob darn o dystiolaeth.		
<input type="checkbox"/> 9	Manylion unrhyw wallau gweithdrefnol neu weinyddol sydd wedi dod i'r golwg ers i raddau asesu'r athrawon gael eu cyflwyno'n wreiddiol, a chadarnhad o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw.		
	Tystiolaeth o berfformiad y myfyriwr	<i>Nodwch pa ddogfennaeth sydd ar gael a'i lleoliad.</i>	<i>Wrth gyflwyno apêl i'r sefydliad dyfarnu, dim ond ar gyfer y myfyriwr sydd wedi gwneud cais am yr apêl y bydd angen i chi lanlwytho'r ddogfennaeth hon.</i>
<input type="checkbox"/> 10	Yr holl dystiolaeth a oedd ar gael am y myfyriwr a ddefnyddiwyd wrth bennu'r radd.		
	Dogfennaeth adolygiad y ganolfan	<i>Nodwch pa ddogfennaeth sydd ar gael a'i lleoliad.</i>	<i>Wrth gyflwyno apêl i'r sefydliad dyfarnu, dim ond ar gyfer y myfyriwr sydd wedi gwneud cais am yr apêl y bydd angen i chi lanlwytho'r ddogfennaeth hon.</i>
<input type="checkbox"/> 11	Copi o gais y myfyriwr am adolygiad canolfan a chopi o ymateb y ganolfan.		<i>Os canfu'r ganolfan unrhyw wallau gweithdrefnol neu weinyddol, dylai'r ymateb i'r myfyriwr nodi'n glir pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i hynny.</i>

DIWEDD

Atodiad Ch – Canllawiau i ganolfannau ar newid graddau ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi

Efallai y byddwch yn darganfod, ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, fod gwall wedi digwydd sy'n golygu bod myfyriwr wedi cael gradd uwch neu is nag y dylai fod wedi'i chael. Gallai'r gwall hwn effeithio ar fyfyriwr sydd wedi gwneud cais am adolygiad canolfan a/neu fyfyrwyr eraill nad ydynt wedi gwneud cais am adolygiadau o bosibl.

Bydd sefydliadau dyfarnu yn ystyried ceisiadau gan ganolfannau i gywiro gwallau ar sail yr esboniad a roddir gennych yn nodi pam y dylid newid y radd yn eich barn chi. Dim ond os oedd y radd wreiddiol yn anghywir o ganlyniad i wall gweinyddol neu weithdrefnol gan y ganolfan y dylech wneud cais i newid gradd.

Cywiro graddau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi gwneud cais am adolygiad canolfan

Bydd myfyrwyr sy'n gwneud cais am adolygiad canolfan wedi cael gwybod y gallai eu gradd gael ei chadarnhau, ei chodi neu ei gostwng o ganlyniad i'r adolygiad a byddant wedi cydsynio i'r adolygiad gael ei gynnal. Felly, os byddwch yn darganfod bod y radd a roddwyd i'r myfyriwr sydd wedi gwneud cais am yr adolygiad yn anghywir, dylech ofyn am gael cywiro'r radd fel arfer. Dylech wneud cais cywiro gradd canolfan i'r sefydliad dyfarnu, a'r sefydliad dyfarnu fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid newid y radd, ar ôl bwrw golwg dros yr esboniad a roddwyd gennych. Dylai eich esboniad gynnwys gwybodaeth am unrhyw effaith andwyol y byddai penderfyniad i ostwng gradd wedi'i chael ar y myfyriwr, er enghraifft os yw wedi cael ei dderbyn i sefydliad addysg bellach neu addysg uwch yn seiliedig ar y radd uwch.

Cywiro graddau ar gyfer myfyrwyr nad ydynt wedi gwneud cais am adolygiad

Os byddwch yn darganfod bod myfyrwyr eraill wedi cael graddau anghywir o ganlyniad i'r gwall, dylech ystyried a fyddai'n briodol cywiro graddau'r myfyrwyr hyn hefyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn briodol cywiro'r radd er mwyn sicrhau y bydd pob myfyriwr yn cael graddau terfynol sy'n adlewyrchiad cywir o'i berfformiad. Gallai caniatáu i radd anghywir sefyll hefyd gael effaith andwyol ar gyflogwyr neu sefydliadau addysg a fydd yn dibynnu ar y radd yn y dyfodol, yn ogystal â'r myfyriwr, er enghraifft os bydd yn cael lle ar gwrs nad yw'n gymwys ar ei gyfer.

Fodd bynnag, os gwelwch fod myfyriwr nad yw wedi gwneud cais am adolygiad canolfan wedi cael gradd sy'n rhy uchel, dylech hefyd ystyried yr effaith andwyol y gallai gostwng y radd ei chael ar y myfyriwr dan sylw cyn penderfynu a ddylid gofyn am gael gostwng y radd. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch o'r farn bod yr effaith andwyol ar y myfyriwr yn drech na mantais cywiro'r canlyniad anghywir.

Gall hyn ddigwydd os bydd y gwall yn un cymharol fach (er enghraifft os tybiwyd bod y myfyriwr yn perfformio ar y ffin rhwng y ddwy radd) ac y byddai cywiro'r radd yn cael effaith andwyol ddifrifol ar y myfyriwr (er enghraifft os yw'r myfyriwr eisoes wedi dibynnu ar y radd wreiddiol i wneud penderfyniadau am ei ddyfodol).

Dylech hefyd ystyried a yw gweithredoedd y myfyriwr ei hun, gan gynnwys camymddwyn, wedi cyfrannu at roi gradd anghywir iddo. Os gwelir bod y myfyriwr wedi camymddwyn, dylech bob amser gywiro'r radd a rhoi gwybod i'r sefydliad dyfarnu am y camymddwyn.

Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, os byddwch o'r farn y dylid gostwng y radd, dylech wneud cais cywiro gwall canolfan i'r sefydliad dyfarnu. Bydd y sefydliad dyfarnu yn bwrw golwg dros yr achos cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid newid y radd. Felly, dylech sicrhau bod yr esboniad a roddir gennych i'r sefydliad dyfarnu ynghyd â'ch cais yn cynnwys cymaint o fanylion â phosibl am yr effaith andwyol y byddai penderfyniad i ostwng y radd yn ei chael ar y myfyriwr ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill rydych wedi'u nodi wrth ystyried y mater.

DS Gweler **adran 4** am wybodaeth am gywiro gwallau ar ôl cyflwyno Graddau Asesu Athrawon a chyn cyhoeddi'r canlyniadau.

Atodiad D – Barn academiaidd mewn apeliadau

Adolygu barn academiaidd ar y cam apelio

Ar y cam apelio, gofynnir i adolygwyr annibynnol ystyried a gafodd barn academiaidd ei harfer yn afresymol wrth ddewis y dystiolaeth y mae Gradd Asesu'r Athro yn seiliedig arni a/neu bennu Gradd Asesu'r Athro ar sail y dystiolaeth a ddewiswyd.

Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried y ffordd y gwnaeth yr athro arfer ei farn wrth ddilyn polisi'r ganolfan mewn perthynas â'r myfyriwr unigol sydd wedi gofyn am yr apêl. Ni fydd yn ystyried pa mor rhesymol yw polisi'r ganolfan ei hun - caiff hynny ei ystyried fel rhan o broses sicrhau ansawdd y sefydliad dyfarnu. Bydd yr adolygwr annibynnol yn disgwyl gweld bod yr athro wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer cyfres haf 2021 gan Ofqual a JCQ, a'r deunyddiau cymorth graddio ar gyfer pynciau penodol a ddarparwyd gan y sefydliadau dyfarnu.

Yn y cyd-destun hwn, mae 'rhesymol' yn caniatáu gwahaniaethau arferol mewn barn academiaidd rhwng dau weithiwr proffesiynol sydd â gwybodaeth bynciol briodol a dealltwriaeth o ofynion Ofqual a JCQ. Nid fydd y ffordd y gwnaeth yr athro arfer ei farn yn cael ei ystyried yn afresymol dim ond am y byddai arfer barn mewn ffordd wahanol wedi arwain at ganlyniad mwy neu lai ffafriol i'r myfyriwr dan sylw. Dim ond os na fyddai'r un athro sy'n ymddwyn yn rhesymol wedi gallu gwneud yr un penderfyniad y bydd y ffordd y gwnaeth yr athro arfer ei farn yn cael ei ystyried yn afresymol.

Adolygu'r dystiolaeth a ddewiswyd

Yn gyntaf, bydd yr adolygwr annibynnol yn bwrw golwg dros bolisi'r ganolfan er mwyn deall dull cyffredinol y ganolfan, ac yna'n ystyried yr esboniadau a roddwyd gan yr athro ar y cofnod asesu (neu ddogfennaeth gyfatebol y ganolfan) dros y dystiolaeth a ddewiswyd ar lefel carfan ac unrhyw amrywiad yn y dystiolaeth a ddewiswyd ar gyfer myfyriwr unigol. Bydd hefyd yn ystyried rhesymau'r myfyriwr dros apelio er mwyn deall pam ei fod o'r farn bod y dystiolaeth a ddewiswyd yn afresymol yn ei achos ef.

Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried a yw'r athro wedi arfer ei farn academiaidd mewn ffordd sy'n groes i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Ofqual a JCQ i'r graddau na fyddai'r un athro sy'n ymddwyn yn rhesymol, gan gadw'r canllawiau hynny mewn cof, wedi gallu gwneud yr un penderfyniad. Bwriedir i'r enghraifft ganlynol esbonio'r dull hwn.

Mae canllawiau Ofqual yn nodi y dylai athrawon asesu myfyriwr ar sail amrywiaeth mor eang â phosibl o gynnwys y fanyleb. Ni fydd detholiad o dystiolaeth yn afresymol dim ond am nad yw'n cwmpasu pob maes o'r cynnwys a addysgwyd, oherwydd ni chaiff myfyriwr eu hasesu ar bob maes cynnwys mewn blwyddyn arholiadau arferol. Ni fydd detholiad o dystiolaeth yn afresymol am nad yw'n cwmpasu'r holl amcanion asesu ar gyfer y fanyleb chwaith, os oedd hynny'n angenrheidiol oherwydd y tarfu a fu ar y dysgu a'r addysgu. Fodd bynnag, gall detholiad o dystiolaeth sy'n hepgor un amcan asesu neu fwy yn llwyr fod yn afresymol os na roddwyd cyfiawnhad priodol dros hynny.

Adolygu Gradd Asesu'r Athro

Bydd yr adolygwr annibynnol yn darllen yr adran ar bennu graddau ym mholisi'r ganolfan, er mwyn deall dull cyffredinol y ganolfan, a'r cofnod asesu ar gyfer y pwnc (neu ddogfennaeth gyfatebol y ganolfan), er mwyn deall unrhyw amgylchiadau lliniarol neu ffactorau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r myfyriwr dan sylw. Bydd yr adolygwr hefyd yn bwrw golwg dros bob darn o dystiolaeth o berfformiad sydd ar gael a ddefnyddiwyd i bennu Gradd Asesu'r Athro, a rhesymau'r myfyriwr dros apelio.

Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried a yw Gradd Asesu'r Athro ar gyfer y myfyriwr yn groes i'r disgrifyddion graddio a'r enghreifftiau a gyhoeddwyd gan y sefydliad dyfarnu ar gyfer y fanyleb dan sylw i'r graddau na fyddai'r un athro sy'n ymddwyn yn rhesymol, gan gadw'r canllawiau hynny mewn cof, wedi gallu gwneud yr un penderfyniad. Dim ond os bydd yr adolygwr o'r farn bod y dystiolaeth o berfformiad y myfyriwr yn arwydd clir a phendant o radd uwch neu is yr ystyrir bod gradd yn afresymol.

Atodiad Dd – Rhestr wirio ar gyfer lleihau'r tebygolrwydd o adolygiadau canolfan ac apeliadau a sicrhau proses ddiraffferth

Isod gwelir y materion a all godi a fyddai'n arwain at geisiadau am adolygiadau canolfan ac apeliadau i sefydliadau dyfarnu. Dyma rai gwiriadau y gall canolfannau eu cynnal er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o adolygiadau canolfan ac apeliadau a sicrhau y gellir eu cynnal yn brydlon os gofynnir amdanynt. Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar [JCQ Guidance on the Determination of Grades for A/AS Levels and GCSEs for Summer 2021.](#)

Tystiolaeth asesu

Mae Polisi'r Ganolfan wedi cael ei rannu â'r myfyrwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid fel eu bod yn deall dull asesu'r ganolfan.

Mae trefniadau mynediad wedi cael eu gwneud ar gyfer myfyrwyr cymwys wrth gwblhau asesiadau. Mae'r trefniadau wedi'u nodi a'u cofnodi ar gofnod asesu'r ganolfan.

Mae'r myfyrwyr wedi cael gwybod sut y dylent roi gwybod am ddigwyddiadau a all fod wedi cael effaith andwyol arnynt ar adeg cwblhau'r asesiad (ystyriaeth arbennig). Mae'r ganolfan wedi cadw cofnod a chaiff y wybodaeth ei chofnodi ar gofnod asesu'r ganolfan.

Mae'r ganolfan wedi ystyried canllawiau JCQ ar ymgeiswyr preifat a defnyddiwyd ffynonellau tystiolaeth a dulliau dilysu addas.

Mae'r athrawon wedi llwyddo i ddilysu gwaith y myfyrwyr.

Mae'r myfyrwyr wedi cael gwybod pa asesiadau a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth wrth bennu eu graddau.

Mae gwaith y myfyrwyr wedi cael ei gadw yn unol â hysbysiad JCQ [Retention of Evidence – Summer 2021](#) a dogfen Ofqual [Information for heads of centre, heads of department and teachers on the submission of teacher assessed grades.](#)

Mae gwaith y myfyrwyr a'r cofnodion cysylltiedig ar gael yn rhwydd os bydd sefydliad dyfarnu yn gofyn amdanynt.

Penderfyniadau marcio a graddio

Mae'r ganolfan wedi dilyn y canllawiau graddio a roddwyd gan JCQ ac wedi defnyddio'r disgrifyddion graddau a'r dystiolaeth enghreifftiol.

Os nad oedd modd gwneud trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar adeg asesiad, mae hynny wedi cael ei hystyried wrth bennu'r radd neu mae tystiolaeth amgen wedi cael ei defnyddio. Ymgynghorwyd ag athrawon arbenigol a gweithwyr proffesiynol eraill lle bo hynny'n briodol ac mae'r penderfyniadau wedi cael eu dogfennu yng nghofnod asesu'r ganolfan.

Lle y bo'n berthnasol, cafodd ystyriaeth arbennig ei hystyried wrth bennu marc/gradd ar gyfer asesiad, neu ni chafodd yr asesiad ei gynnwys wrth bennu'r radd a defnyddiwyd asesiad amgen os oedd modd.

Mae achosion o wrthdaro buddiannau wedi cael eu nodi a'u rheoli'n briodol yn ôl yr angen.

Pennwyd graddau yn seiliedig ar farn gyfannol ar y dystiolaeth a rhoddwyd sylw dyledus i ddogfen Ofqual [Information for centres about making objective judgements.](#)

Ceir sail resymegol glir a chryno dros raddau asesu'r athrawon yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu'r graddau.

Ar gyfer cymwysterau TGAU haenol, mae'r radd yn adlewyrchu'r haen gofrestru.

Sicrhau ansawdd mewnol

Cynhaliwyd proses sicrhau ansawdd mewnol yn unol â Pholisi'r Ganolfan.

Defnyddiwyd data perfformiad hanesyddol y ganolfan ar lefel cymhwyster yn briodol fel gwiriad lefel uchel ar ôl i'r graddau gael eu clustnodi i'r myfyrwyr yn unol â chanllawiau JCQ.

Mae'r penderfyniadau sicrhau ansawdd mewnol wedi'u dogfennu, eu storio'n ddiogel a gellir cael gafael arnynt.

Mae pob gradd ar gyfer pwnc wedi cael ei chymeradwyo gan o leiaf ddau athro mewn pwnc gan gynnwys y pennaeth adran neu arweinydd y pwnc. Os mai dim ond athro sydd, Pennaeth y Ganolfan yw'r ail lofnodwr.

Mae'r pennaeth adran wedi cwblhau'r holl wiriadau er mwyn iddo allu cwblhau Datganiad Pennaeth y Ganolfan.

Mae Datganiad Pennaeth y Ganolfan wedi cael ei gyflwyno.

Cadw cofnodion cywir

Mae'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i chofnodi ar gofnod asesu'r ganolfan ar gyfer pob pwnc fel yr amlinellir yng nghanllawiau JCQ.

Cyflwyno graddau

Mae'r graddau wedi cael eu gwirio er mwyn sicrhau nad oes gwallau gweinyddol. Mae graddau myfyrwyr â'r un enwau, neu enwau tebyg iawn, wedi cael eu gwirio'n arbennig o ofalus.

Adolygiadau canolfan ac apeliadau

Mae'r myfyrwyr wedi cael gwybodaeth am drefniadau'r ganolfan ar gyfer cynnal adolygiadau canolfan a chyflwyno ceisiadau am apeliadau i'r sefydliad dyfarnu yn dilyn adolygiad canolfan.

Mae gwaith y myfyrwyr a'r cofnodion cysylltiedig wedi cael eu storio fel bod modd i'r staff gael gafael arnynt yn brydlon os gwneir cais am adolygiad canolfan, ac fel y gellir eu hanfon i'r sefydliad dyfarnu os gwneir cais am apêl i'r sefydliad dyfarnu.

Mae staff y ganolfan ar gael i roi arweiniad i'r myfyrwyr a chynnal adolygiad y ganolfan (cam 1 y broses).

Mae staff y ganolfan ar gael i gyflwyno ceisiadau am apeliadau i sefydliadau dyfarnu gan gynnwys yr holl dystiolaeth berthnasol (cam 2 y broses).

Mae staff y ganolfan ar gael i ymateb i ymholiadau gan sefydliadau dyfarnu am apeliadau, megis cyflwyno rhagor o wybodaeth.